



CYFEILLION

Tudalen 5



YSGOL WAUNFAWR

Tudalen 14



CRIW'R DA PLUOG

Tudalen 17



AMERICANWYR

Tudalen 22

ECO'r Wyddfa

Rhif: 403
Hydref 2012
Pris: 50c

Dewch i gerdded.

Dyna'r gwahoddiad a gyhoeddwyd yn rhifyn diwethaf yr "Eco". A thalodd yr hysbysiad yn y papur ar ei ganfed wrth i dros hanner cant o bobl ymgynnull yng Nghaffi Cwm y Glo ar fore Iau, gwlyb, ddiwedd Medi i fwynhau taith hanesyddol dan arweiniad Gareth Roberts.

Trefnwyd y daith ar y cyd rhwng ymgyrch 'Dewch i Gerdded Gwynedd' a Menter Fachwen, ac yr oedd yn rhan o ddiwrnod o weithgaredd yng Nghaffi Cwm y Glo, pryd y cafwyd cyfle i weld sioe sleidiau am hanes y fro, mwynhau barbeciw a chasglu a sgwrsio am hen luniau bro'r "Eco".

Ar y daith cafwyd hanes hen orsaf rheilffordd Cwm y Glo, damwain y powdwr oel, Pont Penllyn, Trên y Chwarel, tyllu ffosydd traenio gan garcharorion rhyfel, 'Stabla' Craig y Dinas, pontydd Pontrhythallt a ffilmio 'C'mon Midfild', a chyfres y Persuaders yng Nghastell Bryn Bras. Amrywiaeth o hanesion difyr o wahanol gyfnodau yn hanes y gylchdaith.

Yr oedd y daith i gyd ar y gwastad (ar wahan i ddringo byr o Bontrhythallt i'r

Groeslon Marc), ac wedi ei chynllunio fel rhan o gyfres teithiau er lles iechyd. Caroline Moncrieff (sydd hefyd yn trefnu teithiau cerdded Nordic) sydd wedi bod yn trefnu teithiau o'r fath led-led y sir ar ran Cyngor Gwynedd, a sefydlwyd nifer o grwpiau cerdded yn sgil y teithiau hyn. Roedd criw da o Grwp Cerdded Penygroes wedi dod i ymuno â'r daith, a'r gobaith yw sefydlu grwp tebyg yn ardal yr "Eco". Y bwriad fyddai cyfarfod rhyw unwaith y mis ar un bore penodol, a chael cyfle am sgwrs a phaned ar ddiwedd y daith.

Os oes diddordeb gan unrhyw un o ddarllenwyr yr "Eco" mewn bod yn rhan o sefydlu grwp cerdded, yna cysylltwch â Caroline Moncrieff (Ffôn: 07980 538811 neu carolinemoncrieff@yahoo.com) neu â Menter Fachwen.



Gwasanaethu'r "Eco" yn Neiniolen...

Mae cannoedd o weithwyr gwirfoddol wedi cynorthwyo i gynnal yr "Eco" dros y blynnyddoedd, ond prin iawn yw'r rhai sydd wedi bod ynghlwm â'r papur o'r cychwyn cyntaf. Dyma gyfle y mis hwn i ddiolch yn arbennig i Iris Rees o Ddeiniolen sydd wedi bod yn dosbarthu'r papur bro yn y pentref ers y rhifyn cyntaf - ie, pedwar cant a dau o rifynnau, a hynny ym mhob tywydd.

Diolch iddi am ei hymroddiad i'r papur ar hyd y blynnyddoedd a dymuniadau gorau am ymddeoliad hapus yn ei chartref newydd yn Llanrug.

..... ac Apêl Caeathro

Ar yr un pryd gwnawn apêl am ohebydd ym mhentref Caeathro, a hynny ar gyfer

rhifynnau'r flwyddyn nesaf. Mae gennych chi, drigolion Caeathro dri mis i ystyried a ydych eisiau parhau i gael newyddion eich pentref o fewn yr "Eco". Cysidrwch gamp Iris yn gwirfoddoli am dri deg a chwech o flynyddoedd. Siawns nad oes un ohonoch yn fodlon rhoi ychydig oriau y mis i wneud y gwaith.



RHIF 403
HYDREF 2012

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn	Copi i law	Plygu	Ble
Tachwedd	Hydref 21	Tachwedd 1	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 18	Tachwedd 29	Caeathro
Nadolig/Ionawr	Rhagfyr 9	Rhagfyr 20	Ysgol Brynrefail

LLYTHYRAU

CARDIAU NADOLIG ACHUB Y PLANT

Annwyl ddarllenwyr,

Mae'r gaeaf ar ein gwarthau ac mae'n bryd i ni droi ein golygon at y Nadolig.

Eleni, mae Achub y Plant Cymru yn cynhyrchu cardiau dwyieithog er mwyn codi arian at waith yr elusen yn rhyngwladol a hefyd yma yng Nghymru ac yn y DU.

Mae bron i 7 miliwn o blant o dan 5 oed yn marw yn ddiangen bob blwyddyn, yn aml o achosion y gellir eu trin yn rhad ac yn rhwydd fel malaria, dolur rhydd a niwmonia. Mae ychydig geiniogau yn mynd ymhell i'w helpu nhw i oroesi ac i dalu am bethau sylfaenol fel brechiadau, rhwydi mosgito a gweithwyr iechyd ar gyfer y clinigau.

Yma yng Nghymru mae 200,000 o blant yn byw mewn tlodi sy'n gallu cael effaith hirdymor ar eu lles, iechyd, addysg a dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae Achub y Plant yn rhedeg rhaglenni yng Nghymru er mwyn helpu teuluoedd ar incwm isel mewn cymunedau diffreintiedig.

Mae'r cardiau Nadolig gyda chyfarchion y tu mewn yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gael mewn pecynnau o 10 o'r un dyluniad sef Madonna a'i Phlentyn, Robin Goch a'r Blwch Postio. Mae'r prisiau yn amrywio rhwng £3.49 a £3.99.

Mae'r cardiau ar gael yn ein siopau elusen ac mewn rhai siopau llyfrau Cymraeg ond gallwch hefyd archebu rhai yn uniongyrchol drwy gysylltu gyda John Roberts ar 01352 840 532 neu john_roberts1000@hotmail.co.uk neu drwy gysylltu gyda Jessica Evans yn y Swyddfa yng Nghaerdydd ar 02920 034 5225 neu j.evans@savethechildren.org.uk neu ebostio walesinfo@savethechildren.org.uk.

Yn gywir

Jessica Evans

Swyddog Codi Arian, Achub y Plant - Cymru

Datblygu'r Cyd-weithio rhwng Papurau Bro Cymru
a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru

Eisoes mae nifer o bapurau bro Cymru yn gweithio'n agos gyda'i heisteddfodau lleol drwy gyhoeddi gwaith buddugwyr llên, ffotograffau o'r gwaith celf buddugol a lluniau'r cystadleuwyr llwyfan. Fel Cymdeithas hoffem yn fawr weld hyn yn digwydd ymhob papur bro. Os ydych eisoes yn rhoi sylw i'ch eisteddfod leol hoffem ddiolch yn fawr i chi am wneud; os nad ydych beth am gysylltu ag ysgrifennydd eich eisteddfod leol i ddatblygu'r syniad hwn?

Yn ogystal mae nifer o bapurau bro yn noddi cystadlaethau ysgrifenedig yn eu heisteddfodau lleol, ac yn cyhoeddi'r erthyglau neu ysgrifau buddugol. Os nad ydych eisoes yn gwneud hyn tybed a fyddych yn ystyried gwneud yn y dyfodol?

Ein nod yn ystod y flwyddyn

hon yw cynnal gweithdai newyddiadurol mewn gwahanol ardaloedd - yn arbennig er mwyn annog pobl i gystadlu ar gystadlaethau addas yn yr eisteddfodau lleol. Efallai, hefyd, bydd y gweithdai hyn yn sbarduno pobl ifanc, yn arbennig, i gyfrannu i'ch papur bro chi. Rydym ni, fel chi, yn cael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru - a byddai o fantais, mae'n siwr, i ni gyd-weithio er mwyn creu mwy o ddiddordeb ymhlith pobl i gyfrannu'n lleol at eu heisteddfodau a'u papurau bro - dau gonglfaen ein diwylliant Cymraeg.

Os hoffech felly drafod y posibilrwydd o gyd-weithio â'ch eisteddfod leol o ran cefnogi cystadleuaeth ysgrifennu erthygl neu debyg, neu os hoffech weld gweithdy newyddiadurol yn digwydd yn

£25: Er cof am Mrs Alwena Thomas, 8 Rock Terrace, Llanberis.

£10: Ifanwy Jones, Rhandir, Brynrefail; Mrs Pat Saynor, 75 Maes Padarn, Llanberis; John H. Hughes, Glyder, 8 Ffordd Capel Coch, Llanberis; Cliff a Vera, Awelon, Llanrug.

£5: Ffion ac Isfryn, 1 Bro Elidir, Dinorwig; Anwen a Kevin Jones, Gwelfynydd, Clwt y Bont; Enid, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Llanberis.

CYFARFOD
CAREDIGION
"ECO'R WYDDFA"

Cynhelir cyfarfod o swyddogion a charedigion yr "Eco"

Nos Lun, Hydref 15fed am 7.00 o'r gloch yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.

Mae croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol y papur bro i fynychu'r cyfarfod a chynnig syniadau newydd. Un o'r pynciau fydd yn cael eu trafod yw'r posibilrwydd o osod holl ôl-rifynnau'r "Eco" ar y wê. Dewch draw am sgwrs anffurfiol.

eich ardal chi yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Medrwn ni, wrth gwrs, hefyd ddarparu manylion cyswllt ysgrifenyddion eisteddfodau sy'n lleol i chi.

Gyda diolch a phob dymuniad da i'r papur bro,

Dana a Mei.

Meirion MacIntyre
Huws, Swyddog Datblygu
Cymdeithas Eisteddfodau
Cymru (Gogledd), Brysgyni
Ganol, Capel Uchaf, Clynnog
Fawr, Gwynedd LL54 5DH
mei@steddfota.org 01286
660364/08887654251

Dana Edwards, Swyddog
Datblygu Cymdeithas
Eisteddfodau Cymru (De),
Cilmeri, Ffordd Ddewi,
Aberystwyth, Ceredigion,
SY23 1EU dana@steddfota.org

01970 623003/07814145436

Clwb Gwyliau Haf Efe 2012



Cynhaliwyd Clwb Gwyliau Haf Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug, yn ystod wythnos gyntaf gwyliau'r ysgol, Gorffennaf 23-27. Clwb Gwyliau ar gyfer plant blwyddyn 3-6 oedd hwn, a dyma'r ail flwyddyn iddo gael ei gynnal. Nod y Clwb oedd i'r plant gael dysgu mwy am Iesu Grist bob dydd, a beth mae'n ei olygu i'w ddilyn, a chael hwyl wrth wneud hynny. Gan mai'r wythnos yn arwain at y Gemau Olympaidd yn Llundain oedd hon, priodol oedd hi mai'r Gemau Olympaidd oedd thema'r wythnos. Felly defnyddion ni gyfres 'Ar Eich Marciau', sef rhaglen ar thema Olympaidd a gyhoeddwyd gan Undeb y Gair. Ond mwy am hynny nes ymlaen.

Mi roedd yna un gwahaniaeth mawr o'i gymharu â'r clwb a gynhaliwyd y llynedd, sef yr holl wirfoddolwyr oedd yn fodlon rhoi o'u hamser i sicrhau bod yr wythnos yn rhedeg yn hwylus. Gan fod Cynllun Efe wedi dod yn Ymddiriedolaeth Gysylltiol ag Undeb y Gair, braf oedd cael cwmni a chymorth John Settatee, Cydlynnydd Cymru Undeb y Gair. Beth oedd yn fy mhlesio i'n arbennig oedd y ffaith bod criw o'r bobl ifanc sy'n mynychu CIC Llanrug (Clwb Ieuenctid Cristnogol) a chysiau Coleg y Bala, wedi dod i helpu a gwasanaethu yn y clwb a oedd yn cael ei gynnal yn eu capel lleol (er bod y clwb ar gyfer plant o bob rhan o'r ardal). Bu llawer o sôn yn ddiweddar gan rai am y ffaith nad yw'r bobl ifanc sy'n mynychu clybiau CIC a chysiau Coleg y Bala yn ddigon gweladwy nac yn weithredol yn eu capeli lleol. Wel, dyma i chi enghraifft ardderchog o bobl ifanc yn gwneud yr union beth hwnnw, dim ond iddyn nhw gael y cyfle i'w wneud!

Beth bynnag, ymlaen â ni i'r wythnos ei hun. Wedi i mi anfon llawer o wahoddiadau allan, paratoi'r holl ddeunydd, paratoi'r capel er mwyn ffithio'r cyfan ar thema Olympaidd, a gweddio'n ddi-baid, fe ddaeth yr amser i'r plant gyrraedd, a dyma fi unwaith eto'n poeni a fyddai yna blant yn dod. Wel, atebodd yr Arglwydd ein gweddiau mewn ffordd mor gadarnhaol, efo rhyw 12 o blant ar gyfartaledd yn mynychu'r clwb bob dydd.

Fel rwyf eisoes wedi dweud, dilyn thema Olympaidd oedden ni, ac felly rhannwyd y plant i mewn i bedair 'gwlad' - Brasil, Jamaica, Tsieina a Ffrainc. Roedd yna gyfle i bob tîm ennill medalau aur, arian neu efydd, yn seiliedig ar sut roedden nhw'n perfformio yn y gwahanol gampau (fel jafelin, naid hir, ras gyfnewid, pêl-foeli a llawer mwy), yn y cwis, efo'r adnod i'w dysgu yn ogystal

â sut roedden nhw'n gwrando ac ymddwyn trwy gydol yr wythnos. Erbyn diwedd yr wythnos cafodd Ffrainc eu coroni'n bencampwyr Gemau Olympaidd Clwb Gwyliau Efe.

O ran y rhaglen, roedden ni'n mynd trwy wahanol ddarnau o Efengyl Marc gan ganolbwyntio ar sut beth yw bod ar dîm Iesu. Felly, ddydd Llun roedden ni'n edrych ar 'Cyrraedd y Tîm', gan ganolbwyntio ar hanes Iesu Grist yn dewis ei 'dîm' (ei ddisgyblion) a'r ffaith ei fod am i ninnau hefyd fod ar ei dîm a'i ddilyn. Ddydd Mawrth, 'Ffurio'r tîm', gan ganolbwyntio ar hanes Iesu yn iachau Bartimeus, a'r ffaith bod ganddo'r nerth i iachau yn ogystal â bod â diddordeb mawr ym mywydau unigolion ar yr ymylon. 'Ysbrydoli'r tîm' oedd y testun ddydd Mercher, wrth i ni ystyried hanes y Gweddnewidiad a'r ffaith fod Iesu Grist yn datguddio mai Mab Duw ydyw - y pencampwr mwyaf erioed ac arweinydd teilwng i ni ei ddilyn. Ddydd Iau, dysgon ni am Iesu'n 'Herio'r Tîm' wrth iddo gerdded ar y dŵr, efo Pedr yn camu allan o'r cwch ato. Dysgon ni am y ffordd roedd Iesu'n dangos ei rym ac awdurdod, a'r ffaith ei fod am i ni yn sgil hynny fod yn barod i 'gamu allan o'r cwch'. Ac fe wnaethon ni orffen yr wythnos gan edrych ar Ddameg yr Heuwr a'r her i ni 'Ddal ati efo'r Tîm', a'r gwahanol ffyrdd mae pobl yn ymateb i alwad Iesu Grist i'w ddilyn. Gofynnwn ni'r cwestiwn i ni ein hunain - 'I ba grŵp ydan ni'n perthyn?'

Wedi dweud 'Hwyl fawr' wrth y plant a chlirio'r capel, braf oedd cael eistedd i lawr rownd bwrdd i fwynhau pryd o fwyd efo'r holl dîm o wirfoddolwyr oedd yn help anferth i mi trwy gydol yr wythnos. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl bobl ifanc oedd wedi rhoi o'u gwyliau i helpu - i Mared, Bethan, Natalie, Sioned, Lois, Beca, Ceri a Jac. Diolch hefyd i John Settatee am helpu i arwain yr wythnos efo'i holl brofiad o redeg clybiau tebyg i hyn ar hyd y blynyddoedd Diolch i Andy o Borthmadog, i Mrs Susan Williams am ofalu am y miwsig (efo John), i'r Parchg John Pritchard, i Mrs Gwenno Hughes ac i Mrs Gwenno Williams. Diolch yn fawr iawn i chi gyd. Ond, wrth gwrs, mae'r diolch mwyaf yn mynd i'r Arglwydd am ei holl ffyddlondeb tuag atom ni yn ystod yr wythnos yma, a bob dydd!

Andrew Settatee

Gweithiwr Ieuenctid Cynllun Efe

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

Pryd i Bawb
Arlwyo at bob achlysur yn
unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon


- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te
angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu
gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: **01286 673190**
Symudol: **07774 925502**

**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys

CERIS JONES
Teglan,
Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Clwb Bro Bethel. Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i gyfarfod cyntaf o weithgareddau'r Clwb ddechrau'r mis. Croesawyd pawb gan y Llywydd Parchedig Marcus Wyn Robinson, a llongyfarchwyd Ann Ellis Williams a Gwyneth Williams ar ddathlu penblwyddi arbennig eleni. Anfonwyd cofion at Huw Deulyn Williams, Sue Roberts a Nancy Williams, gan dymuno adferiad buan iddynt. Dymunwyd yn dda i Aneurin, mab Mair Jones, Cilan, ar ei briodas â Sandra. Penderfynwyd i beidio casglu o ddrws i ddrws eleni ond yn hytrach ceisio am arian o dan y cynllun 'Daily Post - WISH - Cash for your Community'. Bydd angen casglu 'tokens' fydd yn ymddangos yn y Daily Post, felly y mwyaf o'r 'tokens' a gesglir y mwyaf y swm a dderbynnir. Gofynnir yn garedig felly i bawb ymdrechu gyda'r cynllun.

Gari Wyn - perchennog Ceir Cymru oedd wedi dod i annerch a bu'n sgwrsio yn ddifyr yn gyntaf am sut y bu iddo ymddiddori mewn hanes,

gan mai y dylanwad mwyaf oedd ei athrawon yn Ysgol Dyffryn Conwy. Aeth ymlaen wedyn i sôn am deulu Morrisiaid Môn a'u cyfraniad enfawr i lenyddiaeth cynnar Cymru. Cyfeiriodd at lythyrau'r brodyr fel un o'r ffynonellau mwyaf cyfoethog ar gyfer hanes ac yn llawn gwybodaeth am fywyd llenyddol a diwylliannol yr oes.

Diolchwyd yn gynnes iawn am sgwrs hynod o ddifyr gan Jenkin Griffiths. Diolch hefyd i'r merched am baratoi'r baned sef Elizabeth Evans a Megan Humphreys. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 2il. yng nghwmni Richard Morris Jones, Caernarfon.

Pwyllgor Eisteddfod Bethel. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi a chyfrannu at y Noson Goffi ddiweddar; i rieni a phlant ddaeth i gofrestru ar gyfer cystadlaethau ac i'r pwyllgor am eu hamser. Manon Griffiths enillodd y ci bach tegan meddal - ei enw oedd Skipper.

Mae Rhaglen yr Eisteddfod bellach wedi ei chyhoeddi a chopiau ar gael am ddim yn y

Swyddfa Bost.

Os am gystadlu yn y 'Gystadleuaeth Dyfalu Llun' mae copiau ar gael gan aelodau'r pwyllgor - £1 yr un gyda gwobr o £10 i'r enillydd, i'w gyhoeddi ddiwrnod yr Eisteddfod.

Plant sydd eisiau cystadlu mewn partion cerdd a / neu llefaru (cynradd ac uwchradd), i roi eu henwau i Lowri - 670 329 erbyn Hydref 12fed.

Cyfarfod nesaf Pwyllgor yr Eisteddfod - Nos Fawrth, Hydref 23ain 2012, 7 o'r gloch yn Festri Capel Cysegr.

Cymdeithas Lenyddol.

Bydd gweithgareddau'r Gymdeithas yn cychwyn nos Fawrth, Hydref 16 am 7.15 yn Festri'r Cysegr. Mererid Mair a'i chyfeillion fydd yn cynnal y noson agoriadol ac edrychir ymlaen at gael croesawu cyn aelodau, ac hefyd unrhyw un sy'n dymuno ymaelodi o'r newydd. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu ar gyfer y flwyddyn a bydd y tocyn aelodaeth ar werth cyn bo hir am £2.

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd noson agoriadol tymor newydd y Gangen nos Fercher, 12ed o Fedi. Cafwyd noson ardderchog, a phawb wedi mwynhau cwmni Meinir Llwyd a rhai o ddisgyblion Canolfan Gerdd William Mathias. Croesawyd pawb gan y llywydd am eleni, Glenys Griffiths, a chroeso arbennig i Eryl Roberts sydd wedi gwella ac yn ail-ymuno a'r gangen. Estynnwyd croeso cynnes i aelodau newydd a chyn aelodau i fwynhau'r rhaglen arfaethedig yng nghwmni ein gilydd am flwyddyn arall. Dymunwyd yn dda i holl blant a phobl ifanc y pentref

yn yr ysgolion a cholegau, a llongyfarchwyd Delyth (merch Edwina Morris) ac Owain, a Rhys (mab Rhian Hughes) ac Emily ar eu dyweddiad yn ystod yr haf. Llongyfarchiadau hefyd i Non (merch Alys Jones) ar enedigaeth mab bach, Gwion Llwyd. Diolchwyd i Meinir Llwyd a'r disgyblion am ein diddanu gyda'u rhaglen amrywiol. Enillwyd y raffl gan Ann Elis a Mair Read. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, 10ed o Hydref, a'r gŵr gwadd fydd Mr. Arwyn Oliver.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am-5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

AgeUK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

CEIR CYMRU

BETHEL (0148) 670 451
(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn.

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% i 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddiscount wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym ar gyfartaledd yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)



Cyfeillion Rhosneigr ar eu hymweliad a'r Caban.

Yr Eglwys Bresbyteraidd. Y Gymdeithas - Bu cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Medi 13eg. Cadeirydd y noson oedd Dafydd G. Ellis, Gwledfa. Yn dilyn gair o groeso cyflwynodd fyfyrddod byr o'r Ysgrythur fel arweiniad i sgwrs y noson yn seiliedig ar ddetholiad o adnodau o bennod gyntaf Llyfr Genesis.

Y siaradwr gwadd oedd Gwyn Hefin Jones ac roedd wedi dewis ymdrin â phennod Y Creu o safbwynt gwyddonol gan egluro'r cyfan drwy gymorth darluniadau perthnasol. Diolchwyd iddo gan y cadeirydd ac roedd y pwnc dan sylw yn ennyn trafodaeth ddiddorol gan yr aelodau ar y terfyn.

Gyda'r cyfarfod nesaf bawn

Iau, Hydref 18fed, bydd rhaglen y Gymdeithas yn dod i ben am y tymor hwn ac yn ôl arferiad bydd yr aelodau yn mynd ar daith wedi ei threfnu gan Dafydd G. Ellis, yr ysgrifennydd.

Ymweliad Cyfeillion Rhosneigr - Roedd yn bleser fel eglwys cael gwahodd tua deg ar hugain o aelodau Eglwys Paran Rhosneigr a'u cyfeillion i ymweld â ni bawn Iau, Medi 6ed. Roedd y tywydd o'u plaid ac yn yr heulwen cawsant eu hudo â golygfeydd y fro. Hwn oedd yr ail ymweliad a gafodd ei drefnu eleni i groesawu cyfeillion o Fôn. Cawsant eu tywys i weld datblygiad y Capel a'r Festri ac ymweld â Gwledfa a'r crefftau arbennig o'i fewn gan Dafydd a Moira

Ellis a chael sgwrs yn yr Ystafell Addoli yn y Caban am safle'r Capel a hanes sefydlu'r Achos, Yr Ysgol Sir a'r cysylltiad agos fu rhwng y ddwy safle gan Lowri Roberts Williams. Amlinellwyd y penderfyniadau y bu raid eu hwynebu â safle'r capel ar droad y ganrif, yr ymdrech i sicrhau man addoli yn y gymuned a llwyddiant y datblygiadau a'r cyfleusterau sydd yn amlwg heddiw ar y ddwy safle gan Gwyn Hefin Jones - yr eglwys erbyn hyn ar safle'r hen Ysgol Sir.

Mwynhaodd y cyfeillion a'r gwesteion luniaeth ysgafn ym mwyty Caban cyn iddynt symud ymlaen i ardal Deiniolen a Dinorwig yng nghwmni eu tywysydd, y Parch Idris Thomas.

Llongyfarchiadau.

Dymunwn longyfarch Owain Gwyn, Rhandir, a Delyth Wyn Morris, Treflys, Bethel. ar eu dyweddian yn ddiweddar. Pob lwc i'r ddau.

Sefydliad y Merched.

Cynhaliwyd Cyfarfod Sirol y Sefydliad ar Fedi 28ain yng Nghlwb Cymdeithasol, Llanberis. Noson ydoedd dan y teitl 'Lluniaeth a Chonsurio', a brofodd yn llwyddiannus dros ben yng nghwmni Howard Hughes, y consuriwr o Fangor. Yn ystod mis Hydref bydd dau gyfarfod o bwys, sef y Swper Cynhaef nos Lun, Hydref 8fed, dan nawdd Grŵp Eryri o Sefydliad y Merched, a gynhelir unwaith eto yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis ac yna ar ddydd Sadwrn, Hydref 13eg, Cyngor yr Hydref a gynhelir yn Ysgol Brynrefail.

Profedigaeth. Gofid a thristwch oedd deall am ymadawiad Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, ar Fedi 16eg yn 79 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu yn eu profedigaeth.

Diolch. Dymuna Ifanwy Jones, Rhandir, ddiolch i bawb am yr ymweliadau, y galwadau ffôn, yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd wedi ei thriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr i bawb.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



MANTCELL
GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Oedfaon Hydref:

7: am 5.30: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

14: am 2.00: OEDFA DDIOLCHGARWCH dan arweiniad y Parch Gerallt Lloyd Evans, Bodorgan.

21: am 5.30: Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan

28: am 5.30: Parch Trefor Jones, Caernarfon.

CHIROPODYDD

GALWADAU I'R CARTREF

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

Newyddion y Capel. Bydd yr oedfaon canlynol yn cael eu cynnal yn ystod mis Hydref:

Sul 7 Hydref am 2:00: Oedfa o Ddiolchgarwch o dan arweiniad ein Gweinidog, y Parch. Marcus Wyn Robinson
Sul, 21 Hydref am 2:00: y Parch. Huw Dylan, Y Bala.

Mae'r holl wasanaethau yng Nghapel Cymunedol y Pentref yn agored i bawb - o unrhyw enwad Cristnogol, Cristion annibynnol, pobl o ffydd arall ac unigolion sydd awyddus i wybod mwy am Iesu Grist. Mae dydd Sul, 7 Hydref wedi'i ddynodi fel 'Sul Croeso 'Nôl'. Felly bydd croeso arbennig i chi i'r oedfa i ddathlu'r cynhaeaf a chynhaliadwyaeth y byd.

Tynfa Fisol. Enillwyr Tynfa Fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caethro ar gyfer mis Medi oedd: 1 - £40, (89): Derwyn Roberts, Cefn Rhos Isaf; 2 - £25, (84): Huw Edwin, Brogaredd; 3 - £15, (103): Edwina Wyn, Bryn Eden; 4 - £5, (112): John Jones, Garreg Lwyd.

Llongyfarchiadau. Mae Caio Iwan, Carrog, wedi graddio o **Brifysgol Caerdydd.**

Cydymdeimlad. Ar 23 Awst bu farw adref yn 4 Caethro Bach, Alwen Roberts. Roedd yn un o deulu'r Post yng Nghaeathro. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd, yn arbennig ei chwaer, Ellen Burke.

Pen-blwydd o Bwys. Llongyfarchiadau i Ifor Hughes, Lleifior, adeg ei ben-blwydd yn 75 oed.

Marwolaeth. Ym mis Awst yn Llanrug bu farw Mrs Ceri Hughes, cynt o Gae Rhydu.

Miri Medi. Llongyfarchiadau i'r sawl fu'n trefnu'r Miri Medi

hynod o lwyddiannus ar y Cae Chwarae ar 8 Medi. Hefyddiolch i bawb a oedd wedi cyfrannu at y llwyddiant fel gweithiwr, dyfarnwyr, cystadleuwyr neu gymdeithaswyr. Hefyd diolch yn fawr i Heulwen Haf am ei phresenoldeb trwy'r prynhawn!

Cymdeithas Cae Chwarae Caethro. Fel canlyniad i'r Cyfarfod Blyneddol, swyddogion Cymdeithas Cae Chwarae Caethro ar gyfer y 12 mis nesaf yw: Cadeirydd - Clive James; Trysorydd - Richard Jones; Ysgrifennydd - Dewi Jones. Aelodau eraill y Pwyllgor yw Norman Hughes, Hefin Hughes, Eryl Jones, Wyn Jones, Matthew Llanfairfechan, Huw Ceiriog ac Alun Roberts. Fel canlyniad mae gan y Pwyllgor yr hawl i gyfethol hyd at dri aelod arall i'r Pwyllgor. Gellir gweld y Fantolen ar hysbysfwrdd y pentref.

Cyngor Cymuned Hyd yma mae Cyngor Cymuned Y Waunfawr wedi methu cyfethol unigolyn i unrhyw un o'r ddwy sedd gwag ar gyfer Ward Caethro. Gofynnir i'r sawl sydd efallai gyda diddordeb gysylltu â'r Clerc, Shoned Griffith, Tŷ Awelog, Y Waunfawr, neu ebost griffith.tyawelog@btinternet.com

Prif Ferch yr Ysgol. Llongyfarchiadau i Lowri Ceiriog sy'n Prif Ferch Ysgol Syr Hugh Owen eleni.

Gohebydd newydd? Hyd yma nid oes un ymgeisydd wedi cyflwyno ei hunan fel Gohebydd Eco'r Wyddfa yng Nghaeathro o 1af Ionawr 2013 ymlaen.

Undeb y Mamau. Ail ddechreuwyd ein cyfarfodydd ar bawn Mawrth, 18 Medi, yn Eglwys Sant Mair Caernarfon. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Jeffrey Hughes. Yr organyddes oedd Mrs Louie Jones. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd cyfarfod a phaned. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd mis Mehefin gan Auriel, a thrafodwyd rhai materion. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel a Iola ac enillwyd y raffl gan Iola. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Nos Lun, 8 Hydref, bydd noson o Bingo yn yr ysgol gymuned am saith o'r gloch. Yr elw at Eglwys Sant Gabriel.

Llongyfarchiadau i Ffion Haf Roberts, Dôl Afon, ar ei llwyddiant yn yr arholiad Gradd 5 gyda theilyngdod gyda Cornet.

Pen-blwydd Arbennig. Llongyfarchiadau i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 70 mlwydd oed.

Diolch. Dymuna Rhian ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 70.

Gwellhad Buan. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Mari Jones, Min-y-Don, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd i Michelle, 3 Dôl Afon, wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.



RHEILFFORDD LLYN PADARN

POBLOGAIDD YN 2011

HELFA CALAN GAFAF

Hanner tymor yr Hydref



Mwynhewch daith ofnus drwy goedwig y gwarchod a darganfod gwahanol ysbrydion ar hyd y daith.

Trenau'n ddyddiol o 11^{eg} y bore tan 2.45 y prynhawn



Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael

Caffi a Siop ar agor

Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk 01286 870549

PANED AM DDIM!

Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hysbyseb hwn yn y caffi.
(yn ddilys tan 31.10.12)

Mae Sion Corn yn ei ôl!!

Mwynhewch daith fer ar drên arbennig Sion Corn i lecyn hudolus ger y llyn. Anrhegion i'r plant a mins pei a diod tymhorol i'r oedolion.

Rhagfyr 2nd, 8^{fed}/9^{fed}, 15^{eg}/16^{eg}
Oedolion a phlant o £8.00
(plant o dan dair oed o £3.50)

Rhaid archebu o flaen llaw



BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
"DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pwn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llunogio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorfywys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyraeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



J.M. JONES a'i Feibion LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FFW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfringu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

Yr Hen Bont

Fel de am ogledd mae magned fan hyn
yn tynnu i stelcian, ymdeimlo'r llyn

a'r 'Wyddfa a'i chriw' a lliw 'nghoed Fach Wen,
a darllen tywydd o gymylau'r nen.

Ffwlcrwm rhyfeddol pob tymor a'i dro
ar draws cenedlaethau – Senedd-dy bro...

Bu plant y 'Cownti' hanner canrif-plys
'rhugno neu redeg lawn ffwdan a ffys.

Casglai y criwiau yma ar nos Sul
Am gymun y machlud cyn canu'r cnul.

Lluniau pâr ifanc yn anwesu'n dynn
ar eu dydd arbennig – a'r cefndir syn!

Cynghordy brawdoliaeth erwau y pysg
Yn trafod modrwyau'r brithyll – ymysg

ei gilydd – Ifan a Dic, Robin Jos,
Maurice, Aled Cwm – yn aml cyn bo nos.

Daw'r siwin a'r samon o fae y dre
Derfyn haf at dorgoch dirgel y lle...

Hen bont yr atgofion – ponc, twll... a'r llwch...
hen bont yr ysbrydion, - Marged a'i chwch...

Tw-wit-tw-hw – mae yn pontio amser
o ddoe i heddiw ---pob gwawr a gosber.

Norman Closs

Gyda

3

Blwyddyn o yswiriant
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i ddreifwyr
dros 21 oed!



PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd!

Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.

MOTION & EMOTION



PEUGEOT

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251

www.elimpeugeot.co.uk

Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk

Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO₂ (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a CO₂ 87 - 135

Hoffai Anwen a Kevin, Gwelfynydd, Clwt-y-bont, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd pan oeddent yn dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

C y d y m d e i m l o . Cydymdeimlir yn ddwys gyda theulu'r diweddar Mr Richard Taylor, Stryd Fawr, a fu farw'n sydyn yn dilyn brwydr ddewr. Cydymdeimlwn hefyd gyda theulu'r diweddar Mr Owen Jones (Nowie) 3 Gweledfa, yn dilyn eu colled.

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r ddiweddar Mrs Glenys Jones, Bro Elidir, Dinorwig, yn eu colled hwythau.

Fel mae'r Eco yn mynd i'r wasg, clywyd am farwolaeth trist Iwan Gruffydd Williams, gynt o 2 Rhos Faenol, ond ers y blynyddoedd diweddar yn byw ym Manceinion. Roedd yn gerddor hynod o dalentog a deallus, nid yn unig o fewn ei filltir sgwâr ond yn ddiweddarach ar y llwyfan rhyngwladol. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll yn dilyn eu colled enfawr.

Priodas. Llongyfarchiadau i Urien Siôn, Rhos Faenol, ar achlsyur ei briodas ddiweddar gyda Iola Hughes o Lanrug. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

Yr Ysgol Sul. Mae tymor yr Ysgol Sul wedi ail-ddechrau, ac yn cyfarfod am 10.15 yn festri Capel Ebeneser. Croeso i aelodau hen a newydd ymuno.

Diolch i Iris Rees am flynyddoedd o waith yn dosbarthu'r Eco yn y pentref.

Cychwynnodd ar y gwaith o'r rhifyn cyntaf un tan eleni ond gan ei bod bellach wedi symud i fyw i Lanrug, ni ellir cario ymlaen gyda'r gwaith. Diolchir iddi am ei gwaith dros yr holl flynyddoedd a dymunir yn dda iddi yn ei chartref newydd.

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch. Atgoffir pawb fod yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ar 27 Hydref yn festri Capel Ebeneser eleni. Mae'r Rhestr Testunau ar gael mewn nifer o siopau lleol. Tynnir sylw fod yr Eisteddfod yn cychwyn am 11 y bore a 6 yr hwyr.

Cais am Newyddion. Gofynnir am straeon ynglŷn ag unrhyw weithgaredd neu ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal yn y pentref. Mae llawer o weithgaredd yn cael eu cynnal ac mi fyddai'n braf gallu adrodd yr hanesion hyn trwy golofnau'r Eco.

Cyngerdd Blynyddol y Band.

Cynhelir Cyngerdd Blynyddol yn Theatr Seilo, Caernarfon am 7.00 nos Sadwrn, Hydref 6ed. Bydd y Band Ieuenctid a llawer o ddoniau lleol yn cymryd rhan, a'r prif offerynwyr gwadd fydd Gavin Saynor ar y Tuba, Pencampwr Ewrop yn 2010. Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) fydd yn arwain y noson, a bydd yr holl elw yn mynd i gefnogi teulu lleol.

Pris tocyn yw £10 i oedolion a £3 i blant. Maent ar gael gan yr Ysgrifennydd, Merion Jones (01296 870452). Gan fawr obeithio y ceir neuadd llawn i fwynhau noson arbennig.

Gwasanaethau Ebeneser a Chefnywaun (yn Ebeneser)

Hydref 7: 9.30 a.m. a 5.00 p.m. – Y Parchg John Pritchard

Hydref 14: 5.00 p.m. – Mr Arwel Williams

Hydref 21: 10.00 a.m. a 5.00 p.m. – Y Diolchgarwch

Hydref 28: 5.00 p.m. – Y Parchg John Owen

GLANHAWR SIMDDE

Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd

Stôf goed a "Multi Fuel"

Aga/Rayburn- Olew/Nwy

Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

Lluniau o galon y gymuned Gymreig ym Mhatagonia

Mae gwaith ffotograffydd a dreuliodd ddwy flynedd a hanner yn cymryd 16,000 o luniau o fywyd Cymreig yn y Wladfa ym Mhatagonia yn cael ei gyhoeddi mewn llyfr.

Mae Patagonia – Byd Arall/Otro Mundo/Another World, sy'n cael ei gyhoeddi gan Wasg Gomer, yn gyfrol dair-ieithog sy'n cynnwys casgliad o luniau diwylliannol bwysig wedi'u tynnu gan Ed Gold tra bu'n byw yn Ne America – yn cofnodi bywydau disgynyddion y gwladychwyr Cymreig.

Yn ystod ei ymweliad bu Ed, sy'n byw yng nghysgod yr Wyddfa yn Llanberis, yn byw ymysg y gymuned Gymreig yn Gaiman, yn ogystal â theithio i bentrefi gyda chysylltiadau Cymreig gan dynnu lluniau o gymeriadau diddorol yn eu cartrefi, wrth eu gwaith ac yn eu hamser hamdden.

Mae'r testun yn y llyfr swmpus 180 tudalen yn canolbwyntio ar hanes a bywydau'r coloneiddwyr, ac wedi ei ysgrifennu mewn tair iaith, Cymraeg, Sbaeneg a Saesneg.

Dywed Ed, a symudodd i ogledd Cymru o Essex ym 1999: 'Am flynyddoedd roedd gen i'r teimlad y gallwn ddarganfod rhywbeth yn Ne America ro'n i wedi bod eisiau tynnu ei lun ers talwm iawn – cyfle i deithio 'nôl mewn amser ac archwilio cyfnod rhyfeddol yn hanes Cymru, ar ochr arall y byd.'

Tynnodd Ed, sy'n 54 oed, ei lun cyntaf yn wyth oed, ac mae camera wedi bod wrth ei ochr byth ers hynny. Ganwyd ef yn Llundain a chafodd ei fagu yn Essex ac Istanbwl. Symudodd i ogledd Cymru ym 1999, syrthio mewn cariad â'r dirwedd a dod yn ffotograffydd llawn amser ddeng mlynedd yn ôl.

'Un o'r prif resymau i mi symud i Gymru oedd fy mod wedi cael fy swyno a'm hysbrydoli gan y bobl a'r dirwedd fel ei gilydd, a dechreuais gofnodi fy nghynefin newydd gyda 'nghamera. Roeddwn i'n gwybod am fodolaeth y gymuned Gymraeg ym Mhatagonia er pan oeddwn i'n ifanc iawn ac, o bryd i'w gilydd, clywn straeon bach disglair am hanes Cymry y tu hwnt i Gymru yn y lle pellennig hwn.'

Symudodd ymfudwyr Cymreig i'r gornel yma o'r Ariannin er mwyn sefydlu Gwladfa yn ôl ym 1865, a heddiw mae'r bedwaredd a'r bumed genhedlaeth yn parhau i fod yn rhan o'r bennod unigryw yma yn hanes Cymru.

Ychwanegodd y ffotograffydd dogfennol cymdeithasol a ddysgodd siarad y dafodiaith leol, Castellano, yn ystod ei daith: 'Ro'n i'n cael mynediad i bob rhan o'u cymuned ac yn cael fy nhrochi yn eu ffordd nhw o fyw. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig fy mod i, fel ffotograffydd cymdeithasol, yn dod yn rhan o'r hyn rwy'n ei gofnodi – fedra i ddim mynd rownd y lle fel ymwelydd a disgwyl cael tynnu'r lluniau arbennig yma – mae'n rhaid i mi fyw yn yr un ffordd â nhw er mwyn deall eu bywydau.

Yn ogystal â gweld tystiolaeth o Gymreictod ym mhob man – arwyddion siopau a strydoedd, baneri, sticeri ceir ac enwau pobl – ro'n i'n clywed cymaint o Gymraeg ag y clywn i yng ngogledd Cymru, os nad mwy. Mi es i i angladdau a chlywed emynau Cymraeg, ac roedd eisteddfodau lleol, rhanbarthol ac ieuenctid yn cael eu cynnal yn ogystal â'r brif Eisteddfod flynyddol. Byddai cymdogion yn cyfarch ei gilydd a defnyddio llysenwau yn Gymraeg, ac er bod Castellano'n fwy cyffredin yn gyhoeddus, mae pwyslais ar ddysgu ac arfer Cymraeg yn y cartref.

Mae ei gymhelliad tanbaid i gofnodi ar ei liwt ei hun wedi mynd ag o dros y byd i dynnu lluniau, nid er mwyn llwyddiant masnachol, ond oherwydd ei awydd i gadw lluniau o'r diwylliant, llwythau, cymunedau, arferion, traddodiadau a phobl leiafrifol sy'n tanio'i angerdd a'i reddf greadigol ar gof a chadw.

Gellir gweld gwaith Ed ar-lein yn www.edgold.co.uk. Mae'n cael ei noddi gan Camerâu PENTAX a Snugpak Clothing and Equipment.

Pris: £19.99

Marwolaeth. Ar ôl salwch blin bu farw Mrs Glenys Bryn Jones, 4 Bro Elidir, yn y plygain ar fore Mercher, 29 Awst, yn 68 mlwydd oed yn ei chartref yng nghwmni ei phriod, Llew a'i thri plentyn, Stephen, Kevin ac Anwen ar ôl bod yn wael am gyfnod hir. Yr oedd yn ferch i'r diweddar Llwydfryn a Maggie Roberts, Glan Gors. Cafodd ei geni yn Nant Peris ond daeth hefo'r teulu pan yn ifanc iawn i Glan Gors. Yr oedd yn un o chwech o blant ond fe'i rhagflaenwyd gan Meira, Alwyn ac Ifan. Dim ond dwy o'r genod sydd ar ôl, sef Heulwen yn Neiniolen a'r ieuengaf o'r plant, Rowena, yng Nghaernarfon.

Er ei salwch mawr, cwffiodd yn wrol iawn yn ei erbyn, a thriodd ei gorau i fyw mor naturiol ag yr oedd wedi arfer, er bod hyn yn anodd iawn iddi ar adegau. Cofiaf yn dda ei gweld ar fwy nag un achlysur yn eistedd hefo'r ocsigen yn ei thrwyn ar y lawnt, yn chwynu a phlannu blodau. Yr oedd wrth ei bodd yn yr ardd, a honno yn werth ei gweld bob amser. Dyma oedd un o'i phleserau. Bu iddi hi a Llew briodi yn Eglwys Crist Llandinorwig, gyda'r Ficer ar y pryd, y Parch Efan Trefor Jones, Llandudno, yn gwasanaethu. Wedi hyn aethant i fyw i Gaernarfon ond ar ôl peth amser daethant i fyw at ei mam i Glan Gors, yna yn 1967 bu iddynt gartrefu yn rhif 4 Bro Elidir, lle y bu iddynt fagu tri o blant. Ar ôl rhai blynyddoedd daethant yn nain a thaid i dri, sef Haf, Iola ac Iwan John. Bu iddi wirioni hefo'r tri.

Wedi i'r plant dyfu aeth allan i weithio, bu am gyfnod yn weithio yn y cantîn hefo'r gwaith trydan ym Marchlyn, lle yr oedd yn hwylus iawn iddi gan nad oedd dim ond rhyw bum munud o Glan Gors.

Un arall o'i diddordebau oedd dawnsio llinell, a bu wrthi yn gwneud hyn am rai blynyddoedd.

Yn ystod ei salwch hir, bu Llew yn hynod o garedig wrthi. Ple bynnag a phryd bynnag yr oedd eisiau mynd, byddai Llew yn siŵr o fynd â hi yno. Yn ei dyddiau olaf a hithau yn gwano yn arw, ni wnâi Llew adael iddi fynd i'r ysbyty am y gwyddai nad oedd Glenys eisiau mynd. Yr oedd yn amser caled iawn iddo, yna daeth Anwen gartref ato gan roi cryn gymorth iddo. Bu yn andros o ŵr da iddi, yn yr hindda ac yn sicr ddigon, yn y tywydd garw – bu yn wych hefo hi.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Crist Llandinorwig ar fore Mawrth, 4 Medi, ac fel y digwyddodd fod buasai Ifan, ei diweddar frawd, yn cael ei ben-blwydd ar yr un dydd. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Idris Thomas, un a oedd yn adnabod Glenys yn dda iawn gan iddo gael ei ddwyn i fyny yn rhif 1 Bro Elidir. Daeth cynifer dda i'r angladd, y mwyafrif da o'r ardal. Yn ystod y gwasanaeth bu i Iola, o dan deimlad dwys, roi teyrnged i'w nain. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym Mynwent yr Eglwys.

Fe fydd colled fawr yn y stryd ar ei hôl, a chwith yw meddwl na welwn hi yn mynd hefo Nia, yr ast, am dro. Yr oedd yn meddwl y byd o Nia.

Estynnwn fel ardal ein cydymdeimlad dwysaf â Llew, Stephen, Kevin ac Anwen a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u galar o golli gwraig dda, mam annwyl iawn i'r plant, a chwaer garedig i Heulwen a Rowena. Gobeithio y cewch nerth i ddal y golled, ag y byddwch yn gallu cofio y pethau da a'r atgofion melys sydd gennych ohoni. Boed ichwi gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma.

Fe fyddwn fel ffrindiau a chymdogion yn ei cholli, ac yn colli cael sgwrs. Yn meddwl llawer amdanoch fel teulu yn eich galar a'ch hiraeth. Glenys, cwsg a gwyn dy fydd.

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Diolch. Dymuna Ffion a Iestyn Jones, 1 Bro Elidir, ddiolch i bawb am y cardiau, rhoddion ac anrhegion ar enedigaeth eu merch, Efa Jên.

Cofion. Anfonwn ein cofion fel ardal at Mrs Alice Thomas (gynt o 1 Bro Elidir), Cartref Pengwaith, Llanberis, gan obeithio ei bod yn weddol, a llongyfarchiadau mawr iddi ar ddod yn hen nain eto i Efa Jên. Un arall i ddod i ymweld â chi, a gobeithio am anrheg.

Diolch. Dymuna Llew, Stephen, Kevin ac Anwen, ddiolch am yr holl alwadau, cardiau a'r geiriau o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar yr achlysur o golli priod a mam. Diolch hefyd am yr holl gyfraniadau a roddwyd er cof am Glenys i fynd tuag at Eglwys Crist Llandinorwig. Diolch am eiriau caredig y Parch Idris Thomas ar ddiwrnod yr angladd. Diolch arbennig i Dr Robin Parry a Dr Geraint Roberts o Feddygfa Llanberis. Diolch hefyd i Dylan Griffith am ei wasanaeth trylwyr. Mawr ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Marwolaeth. Yn ystod mis Awst, bu farw John Henry Hughes, Pant Sardis gynt, yng nghartref Plas y Bryn, Bontnewydd yn 79 mlwydd oed. Un o blant Dinorwig oedd John ac yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Harry Hughes. Ei dad o Ddinorwig a'i fam o ochrau Rhosgadfan. Yr oedd yn ŵr bonheddig iawn ac fe fu yn gweithio yn Robert & Owen, Caernarfon, am flynyddoedd lawer lle yr oedd yn addas iawn i'r swydd. Pan yn Ninorwig yr oedd o a'i fam yn ffyddlon iawn yn Capel MC. Pan fu iddynt symud i fyw i Gaernarfon fe aethant yn aelodau yn Eglwys yr Annibynwyr Salem yn y dre. Byddai wrth ei fodd yn cyfarfod â rhywun o'r ardal er mwyn cal gwybod hynt a helynt yr ardal a chael sgwrs.

Bu gwasanaeth ei angladd yng Nghapel Salem dan arweiniad y Parchedig Ronald Williams ac fe roddwyd ei weddillion i orffwys hefo'i dad a'i fam ym Mynwent Macpela Deiniolen. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

L.G. OWEN

PENISARWAUN

GWAITH CERRIG-TIRLUNIO

Gwaith Walio • Gwynebu

Pointio • Gwaith Blocs • Patios

Dreifs • Llwybrau • Gwaith Grafel

Llechi • Ail Wneud Gerddi • Trin Coed

Concretio • Tarmacio • BlocPavio • Dreinio

Gwaith Clirio • Ffensio • Decio A.y.b

● Gwaith o safon, Prisiau Cystadleuol ●

Gwasanaeth Cyfeillgar - Gwbwl Yswiriedig

CYSYLLTWCH ► 01286 870318

NEU ► 07896739544

www.gwyneddstonemasonry.co.uk

- **Priodasau** ● **Dathliadau**
- **Achlysuron Arbennig** ● **Cynadleddau**
- **Pwyllgorau** ● **Bwydlen Bar**

THE LEGACY

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: 08444 119 003

D y w e d d i a d . Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Llŷr, Aljen a Maryanne ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob bendith a hapusrwydd i'r ddau ohonoch gan mam, Luke a Vicky.

Cydymdeimlo. Awst 21ain, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar ôl salwch byr, o Ty'n Gerddi, Waun, yn 85 mlwydd oed, bu farw Glyn Jones, priod annwyl Ann, tad cariadus Timothy a Sandra, a thad yng nghyfraith Dale, brawd a brawd yng nghyfraith ac ewythr hoff. Anfonir ein cydymdeimlad llwyrfa â chwi yn eich colled fawr.

Ysgol Sul Bosra. Fe ailgychwynnwyd yr Ysgol Sul ar Fedi'r 9fed a gobeithio y cawn dymor prysur yr hydref hwn. Bydd Andrew Setattree yn dod atom fore Sul, 14 Hydref, ac edrychir ymlaen am ei gwmni. Cofiwch fod croeso twymgalon i aelodau newydd - yn athrawon neu blant.

Pen-blwydd Arbennig. Llongyfarchiadau i Arwel, Cae Eboni, ar ddathlu phen-blwydd arbennig ddiweddd mis Medi oddi wrth y teulu, ffrindiau a phawb yn y pentref.

Pwyllgor Neuadd. Tynnwyd Clwb Cant Medi a'r enillwyr oedd: Elwyn Williams, Bryn Rhydd Mawr a Beth Green, Tan y Coed.

Gobeithir trefnu gweithgareddau tuag at y gost o redeg y Neuadd ac fe'u cyhoeddir yn y rhifyn nesaf wedi'r pwyllgor ar 20 Medi.

Gwellhad. Tydi'r tywydd yma'n helpu neb i wella ac ydi, mae'r holl law yn effeithio ar rai ohonom. Ond dymunir

gwellhad buan i'r rai ohonoch sydd wedi bod yn sâl - hwyrach y daw haul ar fryn eto rhywbryd!

Clwb Ieuenctid. Mae'r Clwb wedi ailgychwyn ers Medi 11fed am 7 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Mae croeso cynnes i bobl ifanc o Flwyddyn 8 i fyny.

Priodas

Berl.

Llongyfarchiadau i Wendy a David Philips ar achlysur eu Priodas Berl yn ddiweddar - difyr edrych ar y lluniau bendigedig ohonoch 30 mlynedd yn ôl. Pob bendith i chwi eto i'r dyfodol.

Cylch Ti a Fi. Mae'r Cylch yn cyfarfod yn y Neuadd Gymuned bob dydd Iau o 1.30-3.00. Croeso cynnes i aelodau bach newydd.

Gair o Ddiolch. Dymuna John Eifion a'r teulu oll ddiolch o galon am bob arwydd caredig o gydymdeimlad yn eu colled sydyn ac annisgwyl o golli gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl. Diolchir yn ddiffuant am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a fu'n gymaint o gysur i Deulu Hendre Cennin i gyd. Diolchir hefyd i'r ffrindiau a fu yng Nghanolfan Porthmadog i gefnogi'r teulu yn Noson Lawen S4C y Sadwrn cynt - noson a fydd yn drysor o deyrnged aruchel i'w rhieni.

Cronfa Pensiynwyr. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Medi oedd Dave Ash. Commercial, gyda rhif 40. Llongyfarchiadau.

Lluniau i'r Eco. Yn y rhifyn diwethaf crybwyllwyd y cynhwysid lluniau o fuddugwyr yr Eisteddfod Bentref a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf yn y rhifyn hwn.

Bwriadwyd cynnwys lluniau o'r Carnifal gwych a drefnwyd hefyd yn y rhifyn hwn - Hydref. Gan nad oes rhifyn yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Gorffennaf pan mae'r ysgol ar agor a phawb ar gael a'r digwyddiadau yn ffres yn y co', nid oedd yn hawdd cael gafael ar luniau yn y rhifyn ddiwethaf - Medi gan fod pawb ar eu gwyliau ym mis Awst. Hwyrach y gellir gwneud arddangosfa o holl lwyddiannau'r gwahanol weithgareddau yn yr Ystafell Gymuned - gyrrwch eich lluniau i unrhyw aelod o'r Pwyllgor Neuadd.

Apêl. Wedi dros 30 mlynedd o ohebu, a chydag oed yr addewid yn agosau a nifer o ddyheadau angen eu cyflawni, bwriadaf orffen fy ngohebiaeth y Nadolig hwn. Apelir am waed ffres a pherchen ar y sgiliau cyfrifiadurol newydd o gyfathrebu ar gyfer Ionawr 2013. Ann Ifans (Gohebydd) YSGOL GYMUNED

Croeso. Croesawyd 7 o blant bach newydd i'r Dosbarth Meithrin, ac mae Olwen, Cadi, Katie, Ruby, Gethin, Gruffudd a Rhys wedi setlo i lawr yn dda iawn yn ein plith.

Croesawn Mrs Sharon Jones a Miss Manon Wyn fel cymorthyddion yn nosbarth 3 a 4, Miss Donna Jones, Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen a Miss Natasha Thomas fydd yn treulio amser yn yr un dosbarth fel rhan o'i chwrs yng Ngholeg Menai.

Pob Lwc! Dyna ddymunwn i'r plant sydd wedi dechrau ar eu cyfnod yn Ysgol Brynrefail.

Gwersi Nofio. Mae 33 o blant dosbarthiadau 2, 3, 4, 5, a 6 wedi dechrau ar gyfres o wersi

nofio sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar fore dydd Iau ac mae pawb yn mwynhau.

Gwersi Offerynnol. Mae 13 o blant yn derbyn gwersi yn yr ysgol bob wythnos.

Clwb Chwaraeon/Campau'r Ddraig. Mae'r gweithgareddau wedi cychwyn a byddant yn cael eu cynnal nos nos Lun ar ôl ysgol tan 4 o'r gloch i blant Bl 3 i 6.

Yr Urdd.

Bydd gweithgareddau'r Urdd yn cychwyn ar ôl y Nadolig.

Tynnu Lluniau. Bydd Mr Gwynant Parry yn yr ysgol fore dydd Mwth., 13 Tachwedd, i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw un sydd heb blant yn yr ysgol alw draw os dymunant.

Diwrnod o Hyfforddiant.

Bydd yr ysgol ar gau dydd Gwener, 19 Hydref, ar gyfer diwrnod o Hyfforddiant i'r Staff.

Cystadleuaeth Fformiwla 1 i ysgolion.

Mae'r ysgol am fanteisio ar gyfle gwych i gymryd rhan yn y cystadleuaeth Fformiwla 1 mewn ysgolion. Fe fydd disgyblion o flynyddoedd 3-6 yn cael cyfle i ddylunio car rasio a'i rasio yn erbyn ceir y mae ysgolion eraill ledled gogledd Cymru wedi eu hadeiladu.

Papur Newydd yr Ysgol.

Yn dilyn cais gan y plant a'r rhieni, fe fydd yr ysgol yn cyhoeddi papur newydd yn dymhorol gyda'r rhifyn cyntaf i'w gyhoeddi ychydig cyn gwyliau'r Nadolig. Drwy gyhoeddi'r papur, cawn ddarparu cyfleoedd addysgol arbennig i'r plant a datblygu amryw o sgiliau hanfodol, ee cyfathrebu a mentergarwch.

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277





Agoriad Neuadd Bentref Bethel.

Yr Athro W.J.Gruffydd, un o blant enwocaf y fro, a gafodd y fraint o agor Neuadd Goffa Bethel ym mis Chwefror 1950. Fel amryw led-led y wlad, casglwyd arian ar gyfer neuaddau o'r fath o fewn y cymunedau lleol, a hynny i goffau'r bechgyn a gollodd eu bywydau yn ystod y ddau ryfel byd. Doedd dim arian loteri ar gael bryd hynny, na chronfa dreftadaeth. Mae'n syndod meddwl yr aberth ariannol a olygai i gymunedau digon tlodaidd yn economaidd, ond yn gyfoethog eu diwylliant a'u cymdogaeth.

Codwyd Neuadd Bethel gan gyfraniadau gwirfoddol a gasglwyd o'r wyth cant o blwyfolion a oedd yn byw yn yr ardal bryd hynny. Rhannwyd £600 rhwng y cant ac ugain o fechgyn ieuanc a ddychwelodd

o'r rhyfel, ac aeth y gweddill, cyfanswm o £2,500 tuag at godi'r neuadd, gyda lle i bedwar cant eistedd ynddi.

Cadeirydd y pwyllgor oedd Mr J. Ifor Jones, gyda Mr. J.O.Williams yn drysorydd a Miss Ethel Pritchard yn ysgrifenyddes. Cafodd y gwaith cyfreithiol ei wneud yn rhad gan Mr O.Lloyd Mathews.

Llywydd y seremoni agoriadol oedd y Parch R.Lloyd Mathews, a chafwyd anerchiad gan yr Athro W.J.Gruffydd. Dywedodd ei fod yn neilltuol o falch o gael ei wahodd i agor y neuadd. Cyfeiriodd at Syr O.M.Edwards, a'i genadwri o ddysgu sut i fyw dros ei wlad, nid sut i farw drosti. "Yr oedd neuadd wych wedi ei chodi er cof am y bechgyn a syrthiodd yn y ddau ryfel," ac yr oedd yn hyderu y byddai'r trigolion

"yn ffyddlon i'w coffa trwy fyw bywyd llawnach a cheisio gwell cyfleusterau i'w cymdogion, nid yn unig ym Methel, ond trwy Gymru a'r byd."

Aeth ymlaen i ddweud, "Cedwch eu coffa yn fythwyrdd, a'r ffordd orau i wneud hynny yw cymryd gofal na bydd enwau eu meibion a'u hwyrion a'r genhedlaeth a ddaw ar restr goffa fel hon eto." Cafwyd anerchiadau hefyd gan y Cadeirydd, gan Mr H.Jones Davies, Swyddog Addysg Bellach y Sir, a'r Parchedigion J.Jervis a D.Wyn Edwards.

Aeth dros drigain mlynedd heibio ers agor y neuadd, a llawer neuadd arall debyg iddi, a theg gofyn beth yw cyflwr y fath adeiladau erbyn heddiw, a pha ddefnydd a wneir ohonynt?

Rowndiau Llefrith.

Gyda diolch i Ieuan Williams o Fethel am hanes un arall o rowndiau llefrith y fro – na chafodd ei chrybwyll o gwbl yn rhifynnau diwethaf yr "Eco". Dyma sut mae Ieuan yn cofio am William Jones Car Llaeth a ddilynwyd yn ddiweddarach gan Ifan Llefrith. "Mae'n sicr fod gan lawer o'r darllenwyr atgofion o rai oedd yn ddosbarthwyr yn y fro. Un o'r rhain oedd 'William Jôs Car Llaeth'. Gwas ydoedd i Hugh Roberts, Y Glasgoed, ac yn sicr, roedd ei rownd ymysg yr hwyaf yn y cylch. Cychwynnai o'r Glasgoed i lawr am Bonrhythallt; yna i Gwm y Glo, Brynrefail, Clwt y Bont a Phenisa'rwaun. Ni wn faint o lefrith a werthai, ond dyma ei daith ddyddiol gyda merlen a fflôt. Bum yn hir iawn yn sylweddoli bod dwy ferlen gyffelyb (rhywbeth rhwng merlen fynydd a chob Cymreig) yn Y Glasgoed, ac mai bob yn ail diwrnod yr âi'r ddwy ar y daith

jirfaith. Trigai William Jones yn y Stabla (Craig y Dinas), ond ni chredaf fod neb o'i deulu yn byw'n yr ardal heddiw. Y mae wyr iddo, Maldwyn Parry, a fagwyd yng Nghefn y Coed, Pentaicroesion, yn byw yn Nhal y Bont ger Bangor, a chanddo yntau rownd lefrith fel ei daid. Pan ymddeolodd William Jones, cyflogwyd Evan Owen gan Hugh Roberts i gario ymlaen â'r busnes, ond erbyn hyn, fan Austin 8 oedd y 'mode of transport'. Ymhen amser cymerodd Evan Owen y busnes drosodd gan gynyddu'r gwerthiant yn sylweddol. Bum yn gweithio i Ifan Llefrith yn llawn-amser tua 1953, a rhaid oedd mynd i Fangor yn blygeiniol i'r A&C Dairy i gasglu'r llefrith. Safai'r adeilad ar ffordd caernarfon, ble mae siop Home Bargains erbyn heddiw. Erbyn hyn, roedd Ifan yn gwerthu tua 80 galwyn bob dydd – i gyd mewn poteli gwydr, ac roedd y fan Ford 10 yn cael

dipyn o drafferth i ddringo Nant y Garth ar fore oer!

Ychydig ddyddiau ar ôl i mi ddechrau gweithio, bu rhaid i Ifan golli diwrnod o'i waith. Gan nad oeddwn yn ddigon hen i yrru cerbyd, daeth Bill Bayliss, Llain Hir gyda mi fel gyrrwr, ac er nad oeddwn ond megis dechrau, a Bill heb fod yn gyfarwydd â'r rownd, bu eithaf llwyddiant ar yr ymdrech, gan mai un ty yn unig a fethwyd. Y broblem oedd mai'r teulu hwnnw oedd un o gwsmeriaid gorau Ifan – yn prynu pum peint yn ddyddiol!

Mae gweddwr Ifan, Tegwen a'i ferch, Menna, yn byw yn Llanrug."

Diolch am fwy o atgofion a gwybodaeth. Rwy'n dal i obeithio cael hanes ceir llefrith yn ardal Bethel a Deiniolen, ac rwy'n dal i ddisgwyl am luniau rhai o'r hen droliau a cheir llefrith.

Clwt y Bont.

Ac o son am luniau, daeth ymateb ar y ffôn yn fuan iawn i'r hen lun o Glwt y Bont gan Neville Williams a Ceri Foulkes; y ddau yn enwi'r tai bach ar ochr chwith y llun.. Ond daeth toreth o wybodaeth ysgrifenedig yn ddiweddarach drwy'r post gan Ceri Foulkes hefyd, a rhaid disgwyl tan y mis nesaf am drafodaeth llawn am yr hen lun a'r tai. Llawer o ddiolch i chwi eich dau am ymateb mor sydyn. Y mis hwn, dyma hen lun o Fethel, gan obeithio y daw crystal ymateb o'r fan honno!

Gwraig Dafydd Ddu Eryri.

Boddwyd Dafydd Ddu Eryri yn afon Cegin wrth ddychwelyd i'w gartref yn Llanrug o Fangor. Claddwyd ef ym mynwent Llanrug, ac y mae cistfaen yno gydag englynion coffa gan ei 'gywion' wedi eu cerfio arni. Bu ei weddw, Elin, farw ar Sed o fis Mawrth 1835 yn 80 mlwydd oed, ond nid gyda'i gwr yn Llanrug y claddwyd hi. Mae Elin ym mynwent Llanbeblig; o bosibl gyda'i rhieni. Yn yr un bedd mae Thomas Williams a'i wraig Mary Thomas. Pam tybed y claddwyd hi ar wahân i'w gwr? A pha mor gyffredin yw claddu gwr a gwraig mewn dwy fynwent wahanol? Os gwyddoch am enghreifftiau eraill, cysylltwch.

Haf Gwlyb 1912.

"Ni fu'r profiadau ym mro'r 'Eco' heb eu cyd-destun ehangach," meddai Duncan Brown o'r Waunfawr. Eglurodd mai yn 1912 y cafwyd yr Awst oeraf ers 1659, a hynny'n rhannol oherwydd frwydrad y llosgfynydd Novarupta ar ddechrau Gorffennaf. Ac yng nghanol Mehefin cafwyd y cyfnod hwyaf o law diysbaid a gofnodwyd yn Lloegr. Ddiwedd Mehefin gorlifodd afon Ogwen a chafwyd tirlithriad yn nant Ffrancon a achosodd i'r ffordd drwodd am Gapel Curig gael ei chau am rai dyddiau. Am fwy o hanesion y tywydd ewch i wefan Llên Natur (llennatur.com) a darllen y Tywyddiadur. Diolch i Duncan am ddangos na ddioddefodd bro'r "Eco" hanner mor ddrwg ac ardaloedd eraill yn ystod haf gwlyb 1912.

A dyna'r cyfan am y mis. Anfonwch eich ymholiadau neu eich sylwadau ar hanes bro'r "Eco" i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515)

Ysgol Brynrefail

Veritate - Scientia - Labore



Ydych chi'n cofio'r diwrnod cyntaf hwnnw yn eich ysgol uwchradd newydd? Yn eich gwisg Ysgol newydd? Yn teimlo'n braidd yn nerfus?

Wel, fe ddaeth disgyblion y flwyddyn 7 newydd ynghyd yn y neuadd i fynychu eu gwasanaeth gyntaf ac wedi hynny cael gair cynnes o groeso gan y Pennaeth, Mr Eifion Jones.

Ac wedi'r gwasanaeth cawsant eu dosbarthu i'w dosbarthiadau cofrestru newydd gan Bennaeth Blwyddyn 7 Mrs Iona McDermont.

Croeso i Ysgol Brynrefail blwyddyn 7!

Anwytho Blwyddyn 12

Ar ddechrau tymor newydd rydym fel ysgol yn falch o gael croesawu 60 o ddisgyblion yn ôl i flwyddyn 12 eleni. Rydym yn eu llongyfarch yn wresog ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU ac yn dymuno'n dda iddynt.

Ar Fedi'r pumed a chweched trefnwyd deuddydd anwytho i gyflwyno blwyddyn 12 i waith y chweched ac i'w rhoi ar ben ffordd am gymhwyster y 'Bagloriaeth Gymreig' (Bac). Croesawyd nifer o siaradwyr gwadd i'r ysgol a chynhaliwyd sawl gweithdy.

Daeth Sioned Medi Jones ymao Brifysgol Bangor i siarad am bwysigrwydd y Bac i brifysgolion. Pwysleisiodd mai cymhwyster galwedigaethol yw'r Bac sy'n baratoad da ar gyfer astudiaethau academiaidd mewn prifysgol. Hefyd, cafwyd cyflwyniad bywiog a difyr gan gogyddes ac entrepreneur lleol, Denise Baker-McClearn. Collodd ei gwaith fel seicolegydd iechyd yn 2009 ac, ar ôl deuddeg cyfweiliad aflwyddiannus, penderfynodd fanteisio ar ei chefnidir fel cogyddes i ddechrau 'Secret Supper Club' yn ei chartref yn Moel Faban, Bethesda. O hedyn bychan tyfodd ei syniad ac erbyn hyn mae'n arlwygo mewn gwyliau fel y 'Greenman' ac, yn ddiweddar, yn seremoni agoriadol y Gemau Olympaidd. Mae hyd yn oed wedi bod ar y teledu! Pwysleisiodd bwysigrwydd y 'sgiliau meddal' sy'n allweddol ar gyfer llwyddo ym myd busnes ac, yn



'A' serennu

Er eu bod ym mlwyddyn 9, hynny yw, dwy flynedd ysgol islaw oedran T.G.A.U., fe fentrodd Shannon Williams a William Lamb ar arholiad Mathemateg T.G.A.U. eleni. Fe basiodd y ddau yn gampus ac ennill A* yn y pwnc. Camp yn wir, ac y mae pawb yn nheulu Brynrefail yn eu llongyfarch yn galonnog.

wir, yn unrhyw faes – sgiliau megis dyfalbarhad, gwaith caled, cwrteisi ayyb.

Yn y prynhawn cafwyd nifer o weithdai ymarferol a bywiog er mwyn datblygu sgiliau'r disgyblion ac i roi cyfle iddynt gyd-weithio a dod i adnabod ei gilydd. Daeth Technocamps yma i roi blas iddynt ar fyd technoleg. Gofynnwyd iddynt greu meddalwedd cyfrifiadurol i reoli robot bach. Daeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yma i weithio ar eu sgiliau cydweithio. Cawsant eu troi'n ddefaid dall tra'r oedd un aelod o'r tîm yn gorfod eu corlannu gan ddefnyddio chwiban yn unig! Cafwyd cyflwyniad hynod ddifyr a phoblogaidd iawn gan baramedic. Roedd ei waith a'r penderfyniadau anodd mae'n gorfod eu gwneud yn agoriad llygad i bawb. Hefyd, cafwyd sesiynau adeiladu tîm gan gwmni Mentro Môr a Mynydd ac Andrew Hughes, ein Swyddog 5 x 60.

Roedd ymateb y disgyblion yn frwdfrydig iawn a chafwyd adborth canmoladwy iawn am y cyflwyniadau a'r gweithdai gan y disgyblion. Roedd sawl siaradwr gwadd yn awyddus iawn i gael dychwelyd i'r ysgol i weithio ymhellach gyda'r disgyblion ac yn canmol eu hagwedd aeddfed.

Hoffem ddiolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau ac i Gyrfa Cymru am eu cymorth diflino gyda'r trefniadau.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Llwyddiant T.G.A.U.

Ar ddiwedd mis Awst bu cryn ddathlu pan gafwyd canlyniadau da iawn unwaith eto gan ddisgyblion Brynrefail yn eu harholiadau T.G.A.U.

Yn gyffredinol y mae'r canlyniadau yn amlwg yn well ar gyfartaledd na chanlyniadau Cymru gyfan. Yr oedd y Pennaeth, Mr Eifion Jones yn hael gyda'i sylwadau:

‘Carwn longyfarch, ar ran fy hun ac ar ran y Llywodraethwyr, holl ddisgyblion yr Ysgol ar eu llwyddiant yn eu harholiadau T.G.A.U. eleni. Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu gwaith cyson a chaled y disgyblion.




Maent hefyd yn adlewyrchiad o waith cydwbybodol staff yr ysgol a charwn eu llongyfarch nhw a diolch iddynt.’



Fel rhan o'r rhaglen Anwytho, a drefnwyd gan Mrs Catrin Wyn Jones, Cydlynnydd y Fagloriaeth ôl 16, cafwyd cyflwyniad gwyb gan Darren Lloyd, Paramedig o'r Gwasanaeth Iechyd.

Mae Paramedig yn ddarparwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio o fewn sefyllfaoedd argyfwng meddygol. Mae Paramedig yn darparu uwch lefelau o ofal mewn argyfwng a thrawma. Lleolir y rhan fwyaf o'r gweithwyr hyn mewn cerbydau ymateb sydyn - ambiwlans neu ar feic modur arbennig. Mae paramedig yn paratoi triniaeth gyntaf y tu allan i ysbyty a rhai gwasanaethau diagnostig. Weithiau maent yn gweithio o fewn ysbyty yn trin mân anhwylderau.

Yr oedd ymateb myfyrwyr blwyddyn 12 yn deud y cyfan am ei effeithiolrwydd.



Ysgol Waunfawr



Ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6. Cynhaliwyd cyfarfod Gwobrwyo Blwyddyn 6 yn y Ganolfan ddydd Mercher, Gorffennaf y 18fed, am 9:30 o'r gloch. Estynnwyd gwahoddiad cynnes iawn i rieni a neiniau a theidiau plant Blwyddyn 6 i ymuno gyda ni ac yna am baned ac arddangosiad 'Photo Story' arbennig yn neuadd yr ysgol. Roedd pawb wedi gwisgo yn eu dillad crand a gwobrwywyd pob plentyn yn unigol am ddawn arbennig. Cyflwynwyd llyfr atgofion, llyfr lloffion a tharian unigol i bob plentyn. Dymunwyd yn dda iddynt yn Ysgolion Uwchradd Brynrefail, Syr Hugh Owen, Friars a Phendalar.

Ffarwelwyd hefyd â Mr Gareth Williams a Miss Hannah Thomas. Diolchwyd iddynt am eu gwaith a dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol.

Plant Newydd a Staff. Estynnwn groeso arbennig i'r deunaw o blant newydd yn y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n

hapus yn ein plith ac yn blant da iawn. Estynnwn groeso cynnes hefyd i Aled i flwyddyn derbyn.

Yr un modd croesawn Mrs Branwen Davies fel uwch gymhorthydd AAA / ADY a fydd yn targedu grwpiau o blant yn y sgiliau sylfaenol bob bore dros y ddau dymor nesaf. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein plith. Dymunwn wellhad buan iawn i Anti Luned sy'n parhau adref.

Gwersi Nofio a Thennis. Mae plant Blwyddyn 2, 3, 4 a 5 wedi cychwyn ar eu gwersi nofio tra bod plant blwyddyn 6 yn cael gwersi tenis sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar bnawn ddydd Mawrth yng Nghaernarfon.

Etholiadau. Etholwyd y disgyblion canlynol o flwyddyn 6 yn gapteiniaid ac yn is- gapteiniaid i'r timau am eleni.

DYDDIADAU I'W CADW MEWN COF:

Lluniau unigol a theuluoedd ddydd Gwener, Hydref y 12fed
Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion – ddydd Gwener, Hydref y 19eg, cyrsiau hyfforddiant i'r athrawon.

Dyddiad cau Hanner Tymor yw dydd Gwener, Hydref y 26ain.
A oes gennych ddiddordeb gweithio yn yr ysgol yn y gegin, amser brecwast neu amser cinio, neu lanhau ar ddiwedd y dydd? Rydym yn awyddus i lunio rhestr o weithwyr wrth gefn pan fo cyfnodau absenoldebau neu salwch – os hoffech chi rhoi eich enw ar y rhestr cysylltwch â'r ysgol.

Capteiniaid Eilio = Ioan Smith a Kreena Worbey

Is- gapteiniaid = Gethin Tomlinson a Rhona Loxton

Capteiniaid Cwellyn = Tomos Owen a Elan Jones

Is- gapteiniaid = Joshua Davidson / Jac Jones / Eysyllt Môn ac Eysyllt Haf

Capteiniaid Gwyrfaï = Byron Leggett a Scarlett Human

Is- gapteiniaid = Cameron Wroe/Jack Peter /Nel Glyn ac Enlli Brown

Pwyllgor Gwyrdd yr ysgol. Llongyfarchiadau hefyd i Byron, Gethin, Jac J, Eysyllt Môn, Ellan ac Eysyllt Haf o flwyddyn 6 am gael eu hethol ar bwyllgor gwyrdd yr ysgol. Daeth Mrs Ffion Jones o'r Cyngor i gyd-weithio gyda'r grŵp ddechrau Medi. Cynhaliwyd arolygon ynni drwy'r ysgol a bydd y plant yn monitro ein defnydd o ynni dros y flwyddyn i ddod, gan wneud arbedion gobeithio!!

Glanllyn. Bydd plant blwyddyn 6 yn treulio tridiau yng Nglanllyn ddechrau mis Hydref gyda disgyblion Ysgol Bethel. Diolch i Mrs Gwenda Griffith ac Anti Beca ymlaen llaw am roi o'u hamser i oruchwylio'r plant.

Noson Cyfeillion yr Ysgol yn yr Antur. Nos Wener y 14eg o Fedi cafwyd noson o rostio mochyn yn yr Antur. Brafoedd gweld cynifer o rieni a phlant yn bresennol. Diolch i aelodau pwyllgor y rhieni am drefnu'r noson, llwyddiant ysgubol!! Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Gair o ddiolch. Dymuna Mr Gareth Williams ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cyfarchion ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur ei ymddeoliad ar ôl llawer o flynyddoedd hapus yn Ysgol Waunfawr.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Clwb 300. Enillwyr y Clwb am fis Gorffennaf oedd: £30: Mrs Alma Jones, Tan y Fron; £20: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn; £10: Mrs Glenys Greasley, Minafon.

Enillwyr mis Awst oedd: £30: Mrs Catrin Lowri, 3 Croes y Waun; £20: Mrs Alice Johnstone, 10 Tref Eilian; £10: Mr Neil Adcock, Glanaber.

Eisteddfod. Dewch i atgyfodi Eisteddfod Bentref Waunfawr! Bydd Eisteddfod y pentref yn cael ei chynnal eleni ar ddydd Sadwrn, 20fed o Hydref, yng Nghanolfan y Pentref. Cynhelir Eisteddfod ar gyfer y plant yn y prynhawn (cychwyn am 12.30) ac i'r oedolion gyda'r nos (cychwyn am 7.00 o'r gloch). Mae'r testunau ar gael o Ysgol Waunfawr neu'r syrjeri. Croeso cynnes i bawb sy'n bwy yn y pentref a'r cyffiniau. Am fwy o fanylion cysylltwch ag Olwen ar 650 371 neu Iola Llew ar 650 035.

Dathlu Pen-Blwydd. Yn ystod y mis bu Liam Rowlands, Hyfrydle, yn dathlu cyrraedd ei un ar hugain mlwydd oed a bu Anya Price, Tal Maes, yn dathlu cyrraedd ei deunaw mlwydd oed. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i

Mr Arthur Ellis, fu'n dathlu cyrraedd y 90 mlwydd oed.

Priodas. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gareth Pierce, Ty'n Twll, ar ei briodas â Ceri o Ynys Môn. Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Laura Pierce, sydd wedi ymgartrefu yn y Foelas, Llanrug am gyfnod.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da hefyd i Ceryl Davies, 21 Tref Eilian, ar ei phriodas â Colin Williams o Gaernarfon. Yn Rhos Isaf y maent wedi ymgartrefu.

Taid a Nain. Daeth Raymond ac Ann Edwards, Melin y Wig, yn daid a nain i'w ŵyr bach cyntaf. Ganwyd Iolo Ffrancon i'w merch, Lowri a Cemlyn. Daeth gor-ŵyr newydd i Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan gael ei wyllo yn tyfu a datblygu.

Gwireddu Dymuniad. Cafodd Mark Owen, Cilfynydd, y cyfle i fynd i weithio a chael profiad ar un o ffermydd mawr Seland Newydd. Bydd ef a rhai o'i ffrindiau yno am y chwe mis nesaf. Dymunwn yn dda iawn iddo. Bydd croeso mawr iddo adref ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Dymunwn yn dda hefyd i Leah, Cilfynydd, wedi iddi lwyddo yn ei chwrs coleg. Mae yn awr yn gweithio yn y Cynllun Cymorth Llaw.

O'r Ysbyty. Croeso adref o'r ysbyty i Mr Robin Jones, Bryn Gwylan, wedi iddo orfod treulio cyfnod yno. Cymerwch ofal ohonoch eich hun, Robin, a gwella o ddydd i ddydd.

Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Emsul Jones, 15 Stad Bro Waun, wedi iddi gael triniaeth i'w llygaid yn yr ysbyty.

Cydymdeimlo. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu Ger y Ffynnon, wedi iddynt

gael profedigaeth o golli nain Delyth a oedd yn annwyl iawn iddynt i gyd.

Diolch. Dymuna Pat Parry, Ffordd Felan, ddiolch o galon i bawb am y eu caredigrwydd, y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur cael clun newydd. Hefyd, dymuna Pat a Raymond ddiolch am yr holl ddymuniadau da a'r cardiau ar achlysur eu Priodas Aur.

Gobaith am Gymdeithas Lenyddol?

Syr,

Beth amser yn ôl mewn llythyr i'r Eco ymdrechais, fel cyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas Lenyddol yn y Waunfawr, annog rhywun, neu grŵp o wirfoddolwyr efallai, o'r pentref i fynd ati i ailsefydlu y Gymdeithas yn y Waunfawr, gan nad oes cymdeithas o'r fath yn bodoli ers rhai blynnyddoedd a hyn yn loes o gofio i Gymdeithas gyda chynifer â 70 o aelodau fodoli rai blynnyddoedd yn ôl.

Siom i mi ac i'r nifer o oedolion ddaeth ataf yn sgil cyhoeddi'r llythyr ydi nad oes neb wedi penderfynu ymhel â'r swydd, ac oherwydd hynny fe wynebwn aeaf arall o newyn diwylliannol yn y pentref, gan nad oes Eisteddfod yma mwyach yn ogystal.

Yn bersonol gofynnais i un neu ddau a oedd ganddynt ddiddordeb, ond na, fawr o lwc. Byddwn yn barod i roi bob cymorth o'm profiad blaenorol ac nid yw yn rhyw hwyr eto, byddai cael Cymdeithas o 4/5 mis yn well na dim o gwbl.

Y syniad oedd cynnal y cyfarfodydd unwaith y mis yn y Ganolfan yn y prynhawn, ac yr oedd hyn yn apelio yn fawr at amryw o'r henoed oedd yn gobeithio gweld y Gymdeithas Lenyddol ar ei thraed yn y Waunfawr unwaith eto.

Os oes unrhyw berson, neu grŵp 'falla, yn barod i ailgychwyn y Gymdeithas, rwyf yn fwy na pharod i'w helpu os oes angen.

Rol Williams

Trefn Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Hydref.
7: Mr Merfyn Jones
14: Gweinidog, Parch Gwenda Richards
21: Parch John Owen
28: Y Gweinidog

GLANHAWR SIMNE
TRWSIO CORN • GOSOD CAWL
Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305
WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR GWYNFRYN LLOYD

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU

ARVONIA COACH TOURISM cpt

• Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
• Rhaglen Tripiau Dyddiol.
• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
• Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk

Plygu'r Eco Nesaf. Mi fydd Rhifyn Tachwedd o'r Eco yn cael ei blygu ar y 1af o Dachwedd yng Ngwesty Dolbadarn o 2 o'r gloch ymlaen.

Buasem yn falch iawn o'ch cymorth gyda phlygu'r Eco, gwnewch nodyn o'r dyddiad, amser a'r lle!

Diolchiadau. Dymuna Enid, Delfryn, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'r rhai fuodd gyda hi tra roedd yn aros am yr ambiwlans ar noson ei damwain yn Llanberis. Diolch hefyd i bawb am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Pat Saynor, 75 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a phresantau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn enwedig i'r plant a'u teuluoedd am wneud y penwythnos yn un bythgofiadwy.

Dymuna John H. Hughes, (Hughes Sgwyl), Glyder, 8 Ffordd Capel Coch, ddatgan ei werthfawrogiad diffuant am bob arwydd o gareidgrwydd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed. Diolch am y llu cyfarchion a'r anrhegion yn ogystal â dymuniadau da i'r dyfodol.

Dymuna Megan a Bert 12, Ffordd Glanffynnon, Llanrug, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ag anrhegion a dderbyniwyd yn dilyn dathlu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar.

Dymuna Geraint ac Alwyn Thomas a'u teuluoedd ddiolch o waelod calon am y llu ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn a gafwyd yn dilyn marwolaeth eu mam, Alwena Thomas, 8 Rock Terrace. Carwn ddiolch i'r meddygon a nyrsys cymunedol y Feddygfa Llanberis am eu gofal diflino, hefyd i genod y 'Chemist' am eu cymorth dros y blynnyddoedd. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth teilwng, i'r organyddes Mrs Bethan Holding ac i Gwynfor Jones a Jane am y trefniadau trylwyr a theimladwy.

Fe rannir y rhoddion er cof, rhwng y Marie Curie, Meddygfa Llanberis a nifer o elusennau lleol oedd yn agos i'w chalon.

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Blodau
Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

**Gwasanaethau Capel Coch a Nant Padarn
(yn Capel Coch)**

Hydref 7:	10.00 a.m. a 5.30 p.m. – Mr Dafydd Iwan
Hydref 14:	10.00 a.m. – Y Parchg John Pritchard 5.00 p.m. – Oedfa MOLI
Hydref 21:	10.00 a.m. – Mr Alan Wyn Roberts 5.30 p.m. – Diolchgarwch y Plant
Hydref 28:	10.30 a.m. – Oedfa Deulu 5.30 p.m. –Y Gweinidog

Capel Coch: Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau wedi gwylliau'r haf, ac mae croeso cynnes i blant newydd ddod atom am 11.15 o'r gloch bob bore Sul. Ar yr ail Sul bob mis byddwn yn cynnal Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch yn lle'r Ysgol Sul. Ffoniwch 01286 872390 am fanylion pellach am yr Ysgol Sul. Mae CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) yn cael ei gynnal bob pythefnos ar nos Wener, am 7.00 o'r gloch. Am fanylion pellach ffoniwch 872390 eto.

CYNGERDD YNG NGHWMNI

HOGIA'R DDWYLAN

(Cyfarwyddwr Cerdd: Ilid Ann Jones)

(Cyfeilydd: Iwan Wyn Williams)

ELIN MAI JONES

(unawdydd)

ac

ARPE DOLCE

(Deuawd Telyn Angharad Wyn Jones a Dylan Cernyw)

Nos Sul Hydref 21 ain am 7.30 pm
yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis.
Tocynnau: Oedolion £8; Plant £4

Am fwy o fanylion cysylltwch ag Iwan ar
07827013206

TANYCOED

Gwasanaethau Capel Tanycoed

Hydref 7:	11.15 a.m. – Y Parchg John Pritchard
Hydref 14:	11.15 a.m. – Y Parchg John Pritchard
Hydref 21:	11.15 a.m. – Y Parchg Rhys Llwyd
Hydref 28:	11.15 a.m. – Y Parchg Derrick Adams

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Criw'r Da Pluog.



Cara Robinson Cyntaf Sioe Llanrwst



Ryan Robinson Cyntaf Sioe Môn



Shaun a Michael Roberts Cyntaf Sioe Fflint a Dinbych

Fe gafodd ceiliog o Benisa'rwaun sylw y llynedd am dwyllo llwynog, ond nid yn aml y bydd unrhyw bapur bro yn rhoi sylw i iâr. Ond mae'n braf cael llongyfarch rhai o fechgyn a geneth o Lanrug a Than y Coed am eu llwyddiannau yn ystod yr haf mewn gwahanol sioeau amaethyddol. A dangos ieir sy'n mynd â'u bryd.

Dyma'r brodyr Shaun a Michael Roberts o Lanrug, a'r brawd a chwaer Ryan a Cara Robinson o Dan y Coed yn dangos eu ieir buddugol. (Gyda diolch i Dilwyn Green, Penisa'rwaun am yr hanes a'r lluniau).

Cefnogwch ein hysbysebwy

MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth, Medi 4ydd, croesawyd nifer fawr o aelodau a ffrindiau i'r cyfarfod cyntaf yn festri Capel y Rhos gan y Llywydd, Mair Huws. Y gŵr gwadd oedd yr hynaws Robat Arwyn – un a fagwyd yn Nhalysarn a'i wreiddiau'n dal yn ddwfn yn y fangre honno. Bellach mae'n byw yn ardal Rhuthun gyda'i wraig Mari, Elan ei ferch a'i fab Guto. Llyfrgellydd ydyw wrth ei alwedigaeth ond rydym ni yn gwybod amdano oherwydd ei ddawn ddihafal ym myd cerddoriaeth.

Cafwyd orig fendigedig yn gwrando arno yn cyflwyno 9 o ganeuon, gan olrhain cefndir y caneuon, cyflwyniadau lleisiol a datganiadau ar y piano. Y mae nifer o gorau Cymru yn ddyledus iawn iddo am ei waith, ynghyd â chantorion enwog fel Rhys Meirion a Bryn Terfel.

Bu'n olrhain hanes y gân 'Yfory' a wnaed yn enwog yn 1984 gan Eirlys Parry. Swynwyd ni gyda'r gân o Atgof o'r Sêr, 'Seren y Bore', geiriau gan Gwyn Thomas. Ar y piano cyflwynwyd yr offeren Ladin hudolus, Benedictus – offeren i goffau Llywelyn ein Llyw Olaf. Yn Eisteddfod Eryri 2005, fe swynwyd Pafiliwn llawn gan Bryn Terfel a Mari Wyn o

Lanberis yn canu'r Offeren weddigar hon. Yn 2008 bu cyngerdd o frawdgarwch yn Ysgol Dyffryn Nantlle ac o'r llyfr Yn dy gwmni di, cafwyd datganiad meddylgar o'r gân serch gan Hywel Gwynfryn, 'Anfonaf Angel, cân sy'n cael ei chysylltu ag Ambiwylans Awyr Cymru.

Cân a gyffyrddodd galon pob un ohonom oedd y gân 'Cân y Crud' o'i lyfr Taro Deuddeg, sef casgliad o hwiangerddi newydd i blant gan Cefin Roberts – caneuon a ysgrifennwyd i Efan Jac, ŵyr bychan Rhian a Cefin a Liz ac Eric, Penisa'rwaun.

Cafwyd gwledd wrth glywed Robat Arwyn yn mynd i hwyl wrth ganu'r gân i bêldroed 'Sgorio Gôl', cân a gyfansoddwyd i'w fab, Guto. Mor swynol oed y gân 'Seren Wen', cân i Elan ei ferch oedd yn methu syrthio i gysgu ond a fwynhâi syllu drwy'r ffenest ac edrych ar y sêr. Un o hoff ganeuon Robat yw 'Dy garu di o bell' o'r sioe gerdd Rhyfel y Degwm – difyr oedd gwrnado ar gefndir y gân a mawr y dyfalu pwy briododd Rhiannon, merch y Mans yn y diwedd, - ai John Hughes, y sgweiar cyfoethog ynteu Dafydd, mab i dyddynnwr tlawd!

I gloi cafwyd cân gyda'r geiriau gan Robin Llwyd ap Owain o'r sioe gerdd Triongl Serch, cân i

ddod â disgyblion blwyddyn 6 ysgolion cylch y dalgylchoedd i adnabod ei gilydd.

Buasai pawb wedi gallu eistedd yn ôl am orig arall i ryfeddu at y fath athrylith o gyflwynwr, difyrwr ac, wrth gwrs, gyfansoddwr. Diolchwyd i Robat Arwyn gan Menna – diolchwyd am y doreth o ganeuon cofiadwy, canadwy a theimladwy. 'Anfonwyd Angel' o gyfansoddwr i Gymru gyfan. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Bwyllgor Eisteddfod Bentref Penisa'rwaun am y cyfraniad hael. Darllenwyd llythyr o ddiolch i bawb a fu'n helpu yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd, Eryri a diolchwyd yn ddiffuant gan Tegwen, y Cyfarwyddwr Cenedlaethol am y gwaith bendigedig gydol yr wythnos ym mhabell Merched y Wawr. Yn ystod Hydref, bydd Theatr Genedlaethol Cymru yn llwyfannu cynhyrchiad o gyfieithiad Gwyneth Lewis o The Tempest ar Stad y Faenol ar 2-5 Hydref am 1.30 a 7.30. ac ar Hydref 6 am 1.30. Cost tocynnau yw £15 a £12 ac mae gostyngiadau yn cael eu cynnig i grwpiau o 10 o bobl neu fwy. Ar nos Fercher, Hydref 3, bydd aelodau o Ferched y Wawr yn medru manteisio ar gynnig arbennig, sef gwydriad o win yn rhad ac am ddim cyn y

perfformiad. Dewch i'r bar a dangos eich tocyn aelodaeth.

Llongyfarchiadau i Catrin, merch Eirianwen a Dafydd, ar achlysur ei phriodas â Gwyndaf yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Luned, merch Linda a Hefin, ar achlysur ei phriodas â Ceri yn Nant Gwynant.

Llongyfarchwyd pobl ifanc y pentref a bro'r Eco ar eu llwyddiannau yn yr amrywiol arholiadau.

Llongyfarchwn Gwenda ac Iwan ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf a hynny i Gethin Iwan yng Nghaerdydd. Hefyd llongyfarchwn Carys Wyn a Rolant ar ddod yn nain a thaid i Lois Eluned. Llongyfarchiadau hefyd i Enid ar ddod yn nain i Lowri Siôn.

Derbyniwyd cerdyn diolch wedi ei addurno â phrintiadau dwylo plant yr Ysgol Feithrin am y rhodd hael a dymunir pob bendith i'r Ysgol Feithrin. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn â Mair a Gwyndaf a'r teulu oll o golli Ceri, mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain addfwyn iawn.

Enillydd y raffl oedd Carys Wyn. Genod Penisa'rwaun fydd yn gofalu am y raffl a'r baned y mis nesaf, sef Hydref 9 yn y Sefydliad Coffa am 7.30.

Sefydliad Coffa. Enillwyr Clwb Cant Mis Awst oedd: 1. G. Thomas, Gwenallt; 2. S. Owen, 56 Bro Rhuddallt; 3. M. Williams, 35 Nant y Glyn.

Plaid Cymru. Enillwyr Clwb Cant Mis Medi oedd: 1. Sheila Williams, Glyn Afon; 2. John Roberts, Bedw Gwynion.

Priodas. Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau mawr i Luned, Pant Mwyn, merch Hefin a Linda Jones ar ei phriodas ddiweddar â Ceri. Bu'r gwasanaeth a'r wledd yn Nant Gwynant a deallwn fod y dathlu wedi bod yn fendigedig.

Babis Newydd. Ganwyd Lois Eluned i Siôn ac Elin, Waunfawr, wyres gyntaf i taid a nain, Rolant a Carys Wynne, Fron Hyfryd. Pob bendith.

Hefyd, fe anwyd Elain Grug i Michelle a Dafydd Williams, Stad Talybont, ar 27 Gorffennaf. Llongyfarchiadau mawr iddynt ac i Pamela a Gary ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf a'r trydydd tro i taid a nain, Rob a Gill a Drefor.

Mab bach, Gethin Iwan, a anwyd i Gwion a Jenny Iwan, Caerdydd ar Awst 31. Llongyfarchiadau mawr iddynt hwythau ac i taid a nain Iwan a Gwenda Roberts, Lleiflor ac i hen daid a nain, Huw Gwynfa a Megan Roberts ac i Megan Hughes.

Ffair Grefftau. Cynhelir Ffair Grefftau/Cynnyrch yn Ysgol Gynradd Llanrug ar 15 Tachwedd am 6.30 o'r gloch. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn gosod stondin am £10, gellir cysylltu â Donna ar 07966805229 neu ebost: robertsjones.donna@yahoo.co.uk

Mae tocynnau ar gyfer ymweld â'r ffair ar gael o'r ysgol neu gellir talu wrth y drws: £2.50 (gan gynnwys te/coffi/mulled wine, mins pei a raffl).

Gwersi. Piano/Theori i blant. Ffoniwch 07788438881 ar ôl 6 o'r gloch.

Diolchiadau. Dymuna Megan a Bert, 12 Ffordd Glanffynnon, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd yn dilyn dathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar.

Profedigaeth. Cydymdeimlwn â Mr Gwilym Williams, Bron Eifion, Ffordd yr Orsaf, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd yng nghyfraith yn Nantlle.

Profedigaeth. Bu farw Mrs Menai Roberts, Ceris, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 3ydd o Fedi yn 83 mlwydd oed. Roedd yn weddw i Gwilym, Syrfewr Arfon, a fu farw 24 mlynedd yn ôl. Ganwyd Menai yn Lerpwl lle roedd ei thad, Robert Henry Jones (o'r Felinheli yn wreiddiol), yn gapten llong. Ar doriad y rhyfel fe symudwyd Menai i fyw gyda theulu ei mam yn y Garn. Aeth i Ysgol Dyffryn Nantlle cyn dechrau gweithio i'r Adran Addysg yng Nghaernarfon. Ar ôl priodi Gwilym daethant i fyw i Lanrug ym 1961, lle magwyd dau o blant Olwen a Gareth. Roedd hefyd yn nain gariadus i Karen, Angela a Gwynhelek ac yn hen nain i Daniel, Nathan, Emma, Sasha a James.

Diolch. Dymuna teulu y ddiweddar Menai Roberts, Ceris, diolch i'w holl ffrindiau, teulu a chymdogion am yr holl gardiau, galwadau ffôn a

chydymdeimlad arbennig tuag atynt yn eu colled fawr o golli mam, nain a hen-nain annwyl. Casglwyd £600 i'w rhannu gan yr NSPCC a Nyrsys Macmillan. Diolch i bawb daeth o bob pentref yn y fro i gydymdeimlo a chefnogi'r teulu.

Cylch Meithrin. Os dymunwch ymuno yn y Bêl Bonws Lwcus er budd y mudiad mae modd i chwi gael rhif am £1 yr wythnos a bydd enillydd lwcus bob nos Sadwrn. Mae 10 rhif ar ôl, felly ffoniwch yn syth os am ymuno. Diolch. Rhifau ffôn: Mair (238495), neu Nan (675668), neu Margaret (677535).

Diolch. Dymuna Gwyndaf ac Alun, ar ran y teulu cyfan, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt pan gollasant eu mam annwyl, Ceri Hughes, gynt o Hafan Elan. Braf oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn wedi dod ynghyd i'r gwasanaeth angladd yng

Nghapel Caeathro. Diolch i deulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr o Lanberis, Penisarwaun a Llanrug. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr.

Elusen Epilepsi. Llawer iawn o ddiolch i bawb ddaeth yma i Perthi, Bryngwyn, brynhawn Llun gŵyl y banc, Awst 27 ar ddiwrnod oer, gaeafol a glawog iawn. Er yr anawsterau, cario ymlaen ddaru ni ac yn lle bod allan yn yr haul, symud i'r garej wnaeth John Bryn Afon i goginio'r oen a bu pawb yn cydweithio'n ardderchog. Cafwyd y wledd yn y tŷ a llwyddiant fu'r diwrnod yn sgwrsio, bwyta a glasiad o win. Ar ddiwedd yr achlysur casglwyd £1,205 at E.R.F. - Epilepsy Research Foundation. Mae Gordon a Gill yn gwerthfawrogi yn fawr; y cwbl yn golygu cymaint iddynt. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Capel y Rhos. Dydd Sadwrn, Medi 15fed, priodwyd Iola Non Hughes, Glanffynnon ac Urien Siôn Huws o Ddeiniolen, gyda'r gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc sydd wedi ymgartrefu ym Mhen y Cae, Llanrug.

Oedfaon Hydref.

- 7: Y Gweinidog, y Parch Marcus Robinson
- 14: Dr Ioan ap Dewi
- 21: Gwasanaeth Diolchgarwch
- 28: Parch Athro Gwilym H. Jones



Hwyl Haf yr Ysgol Sul



Mae croeso cynnes i bawb yn Ysgol Sul Capel y Rhos. Caiff plant o'r dosbarth Methrin (dosbarth Mrs Thomas) fynychu'r Ysgol Sul bob bore Sul rhwng 10:00 - 11:00. Os am fwy o wybodaeth cysytwch a Rhian 07833292720

EISTEDDFOD PENTREFI LLANRUG A CHWM Y GLO		
• Eisteddfod 2012 • Ymarferion • Copïau = nos Wener, Tachwedd 23ain 2012, Ysgol Brynrefail = nosweithiau Mawrth, Ffestri Capel y Rhos, Llanrug = ar gael yn y Noson Gyflwyno + 'DropBox' Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Gynradd Cwm y Glo		
DYDDIAD	AMSER	YMARFER
Hydref 9fed	*NOSON CYFLWYNO'R DARNAU + RHANNU COPIAU*	
	6.30 – 7.00	Adran Babanod (unawdwyr + côr)
	7.00 – 7.30	Adran Iau (unawdwyr + côr)
Hydref 16eg + 23ain, Tachwedd 6ed + 13eg	6.30 – 7.00	Côr Adran Babanod
	7.00 – 7.30	Côr Adran Iau
	7.30 – 8.00	Partïon llefaru (Adran Iau)
Tachwedd 20fed	6.00 – 6.30	Unawdwyr Adran Babanod
	6.30 – 7.00	Côr Adran Babanod
	7.00 – 7.30	Unawdwyr Adran Iau
	7.30 – 8.00	Côr Adran Iau
	8.00 – 8.30	Offerynwyr (rhaf sydd angen cyfeiliant piano yn unig) + Partïon llefaru (Adran Iau)

Seddi gweigion. Mae dwy sedd wag ar y Cyngor, y naill ym Methel a'r llall yn Neiniolen.
Os oes unrhyw un â diddordeb neu angen gwybodaeth, rhif ffôn y Clerc yw 01286 871416 neu benmar402@btinternet.com

Crynodeb o gofnodion Medi
Cennin Pedr. Trafodwyd y bwriad o blannu bylbiau mewn rhannau o'r pentrefi a phenderfynwyd gofyn i'r aelodau baratoi rhestr i gyfarfod Hydref – lleoliadau fel o gwmpas arwyddion enw pentref.
Llochesi bws. Penderfynwyd ateb yn ffafriol i gais Gwynedd am i'r Cyngor fabwysiadu cynnal a chadw'r loches newydd ym Methel. Blwch postio Tan Gaer. Penderfynwyd gofyn unwaith yn rhagor i Swyddfa'r Post pa mor fuan yr ail-osodir y blwch.
Priffyrdd. Derbyniwyd ateb Gwynedd bod yr holl dyfiant a oedd yn achosi trafferth i yrwyr wedi ei dorri. Nid oes cyllid ar hyn o bryd i ail-osod wyneb 'anti skid' ger Groeslon Tŷ Mawr, gwneir gwaith angenrheidiol dros dro yno. Cadarnhad y byddant yn asesu'r wyneb tebyg ger Y Groeslon Uchaf.
Pyllau dŵr ger Tan y Gaer, Penisa'rwaun: nid oes draeniau yno ond bydd Gwynedd yn ceisio rheoli'r sefyllfa pan fo dŵr ar y ffyrdd.
Trem Eilian i Ysgol Cwm y Glo: Ateb Gwynedd eu bod yn disgwyl ateb gan First Hydro ers cryn amser ar gyfer trefnu cyfarfod ar y safle.
Llwybr beicio. Nid oes cyllid ar hyn o bryd ar gyfer llwybr beicio o Nant y Garth at ffordd Llanberis ond mae'n fater i'w ystyried yn y dyfodol.
Llywodraethwyr ysgolion. Daeth cyfnod y llywodraethwyr ar ran y Cyngor i ben ddiwedd Awst. Penodwyd y canlynol:
Ysgol Penisa'rwaun – Phyllis Ellis
Ysgol Bethel - Richard Llwyd Jones
Ysgol Rhiwlas - Rhian Evans
Ysgol Deiniolen - Geraint Hughes
Baw cŵn. Dywedodd Aled Green bod angen atgoffa Gwynedd eto am hyn ym Mhenisa'rwaun.
Parcio. Derbyniwyd llythyr oddi wrth ysgrifenyddes Capel Libanus, Clwt y Bont, yn mynegi pryder na ellir parcio ger y Capel yn ystod gwasanaethau ar ôl gosod y llinellau melyn. Gofynnwyd

i Wynedd a ellid cael bathodynau parcio i'r aelodau.
Pelydr X Ysbyty Eryri. Cyfeiriodd Aled Green at y bwriad i ddiddymu'r gwasanaeth yma a phenderfynwyd anfon cwyn i Awdurdod Betsi Cadwaladr ac i "Join the Debate, BCU Health Board, LL17 0JA".
Gadael hen geir. Dywedwyd bod llawer o geir segur ar lecyn tir ger pont Brynrefail – cwyn i Wynedd ac i Asiantaeth yr Amgylchedd. Trem Eilian, Brynrefail. Dywedodd Phylip Jones bod y ffens newydd wrth ochr y gyffordd yn amharu ar welededd gyrwyr ac yn beryglus – gofyn i Wynedd ei symud yn ôl.
Cynllunio.
1. Carfan, Pentir. Cais i addasu adeilad allanol yn uned wyliau. Dywedwyd bod cais i addasu'r adeilad yma yn annedd preswyl wedi ei wrthod gan Wynedd rai blynyddoedd yn ôl. Trafodwyd hyn a phenderfynwyd hysbysu Gwynedd nad yw eu polisi yn rhesymol os y caniateir y cais yma.
Cae Corniog, Penisa'rwaun. Cyfeiriwyd at adeiladu sy'n digwydd yno heb ganiatâd – llythyr i Wynedd.
Ceisiadau eraill a dderbyniwyd.
Cwm Malwen, Penisa'rwaun – adeiladu modurdy.
Capel Seion, Seion, Llanddeiniolen – addasu cyn festri yn uned wyliau.
Tir yn Tŷ Newydd, Clwt y bont – adeiladu pâr o dai, gwella y fynedfa a manau parcio.
Garnedd, Clwt y Bont – estyniad deulawr yn yr ochr a'r cefn ac estyniad un llawr yn y blaen.
Llwybrau.
Llwybr Carreg y Gath, Rhiwlas. Dywedodd Hefin Williams bod yr anawsterau yma wedi eu datrys yn lleol.
Mae ail-doriad gwair Bethel ar y gweill.
Llwybr (Rhif 1) Cefn Isaf, Bethel, angen adnewyddu tair hen gât yno hefyd angen draenio ac addasu ar lwybr 111/112 o Fferm Tŷ'n Coed at Cefn Gwyn – llythyr i Wynedd
Dyddiad y cyfarfod nesaf 16 o Hydref.

Penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain o Awst.
Anfon lluniau Mr Gareth Roberts ymlaen i Gyngor Gwynedd fel atodiad hwyr i'r llythyr a yrrwyd mis diwethaf ynglŷn â'r cais tyrbin gwynt.
Gadael rhan bella o Gae Chwarae Glanmoelyn fel y mae am y tro, ond i gadw llygad ar y sefyllfa yn dilyn cyfarfod gyda Mr Dafydd Roberts o Adran yr Amgylchedd.
Cofnodi tristwch yn dilyn marwolaeth Mrs Eirwen Williams, 1 Bryn Gro, a oedd wedi bod mor weithgar tra'n aelod o'r Cyngor.
Ysgrifennu at y Gwasanaeth 'Probation' yng Nghaernarfon yn gofyn a fyddent hwy yn gallu helpu gyda glanhau'r afon ger Ogwen. Cwyno wrth Cyngor Gwynedd am gyflwr peryglus y reiling sydd o gwmpas safle Garej Hafod.
Trefnu torri coed ar gae chwarae Glanmoelyn sy'n tyfu drosodd at eiddo gerllaw.
Derbyn pris am dorri llwybrau Bryn Ffridd a Gelliodyd a gofyn am wneud y gwaith cyn gynted a phosib.
Nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:
* Dymchwel yr estyniad un llawr cefn presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le – Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Llanrug
* Adeiladu sied amaethyddol newydd – Llidiart y Rhos, Llanrug.

* Newid defnydd rhan o'r llawr gwaelog ar gyfer meithrinfa plant (7 plentyn) – 37 Nant y Glyn, Llanrug
* Adeiladu estyniad un llawr i ochr tŷ annedd yn cynnwys gwelliannau – The Cottage, Pant Afon, Llanrug.
Cwyno wrth yr Heddlu am gar sy'n dal i barcio ar Ffordd Crawia ger Ysgol Brynrefail sy'n golygu fod cerddwyr yn gorfod cerdded yn y ffordd a bysiau yn cael trafferth mawr i basio.
Ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd ynglŷn â'r arwydd petrol ger Garej Cwm y Glo sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn gweld i'r ffordd pan yn gyrru allan o'r pentref, ac am or-yrru yn yr ardal.


**GWYNANT
PIERCE**
Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stfffin mewn
rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYNN CIG = 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

"Hogyn o Lanberis a'r Spitfire"



Mynd i'r Awyrlu / R.A.F.

Pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd fe enlistiais i ymuno â'r R.A.F. Yn hytrach na chael fy ngorfodi i ymuno â'r Fyddin a minnau efo llawer mwy o ddiddordeb mewn awyrennau a pheiriannau hedfan o bob math.

Y peth cyntaf ddigwyddodd oedd cael llythyr i fynd i Padgate ger Warrington tua 1940. Roeddem fel defaid mewn sêl yn mynd o fan i fan a chael ein holi gan rhyw sarjants, dau ohonynt yn eistedd ochr arall i'r byrddau; eisiau gwybod ein hanes i gyd fel petai ni'n garcharorion neu'n ddrwgweithredwyr, am wn i. Holi am ein dyddiau ysgol a beth oedd ein gwaith adref, a beth fydddech yn hoffi ei wneud yn yr Awyrlu. Finnau heb lawer o syniad ar ôl bod yn gweithio'n y chwarel ac yn hoff o 'syms' ac ysgrifennu. 'Clerc', meddaf, am fod honno yn swnio'n joban cwshi!

Ond roedd yr arbenigwyr NCO's wedi fy mesur reit dda; Flight Mechanic (Airframes) meddai'r olaf ohonynt wrthyf, dywedodd eu bod yn fyr o'r rhai hynny. Mae'n rhaid fy mod wedi crybwyll gwaith coed yn rhywle yn ystod yr holi diddiweddd.

Cofiwch, fûm i erioed o'r pentref yn Llanberis, dim ond hefo trip Ysgol Sul i'r Rhyl. Doeddwn i ddim yn siarad yr iaith fain ac roeddwn yn

methu deall y Saeson ma i gyd efo'u gwahanol acenion. Rhai o'r Alban, Jordies, Cockneys ac eraill, ond yn rhyfedd iawn roeddwn yn deall hogiau Lerpwl yn well. Cefais lond bol ar y lle yma yn fuan a difaru i mi enlistio o gwbl. Roeddwn yn falch iawn o gael mynd oddi yno a gobeithiais y byddent yn fy anghofio yn yr R.A.F. Am byth. Wel, felly y teimlais ar y pryd.

Dychwelyd adref ac, ar ôl hir a hwyr, cael llythyr i fynd i Melksham yn Wiltshire. Holi a holi ond neb o Lanbêr yn gwybod lle yn y byd oedd y lle. Ar ôl holi Mr Hughes yn y stesion (gorsaf yr LMS), mynd ar y 10fed o Fehefin 1940 ar y bws i Fangor ac ar y trên i'r R.A.F. School of Technical Training. Wel, sôn am holi! 'Pa bryd oedd gorsaf Caer?' 'Ydan ni di cyrraedd Caer?' ac oddi yno i Gasnewydd gan ddal i holi pawb. Wedyn o dan yr afon Hafren a thrwy dwnnel mawr hir i Fryste, yna i Bath ac ymlaen i orsaf Melksham (oedd, yr oedd y fath le yn bod yn y diweddd), lle roedd cannoedd o hogiau yn dod allan ar y plattform yn eu dillad eu hunain.

Roedd rhyw gewri o ddynion tal mewn gwisg y Llu Awyr a bandiau coch am eu breichiau yn gweiddi dros y lle yn ffaidd yn Saesneg ar i ni fynd mewn rhes ac yn ein cerdded oddi yno i'r camp. Wel, sôn am

ddiwrnod blinedig!

Ar ôl cyrraedd y camp, dal i'n cerdded i lawr at rhyw 'hangars' mawr, mwy na rhai Mona a Camp Fali. Rhesi ar resi o welyau 'double deck' am y gwelwn, a rhwng y rhain roedd waliau wedi eu gwneud â bagiau yn llawn o dywod, fel bod 40 o hogiau yn cysgu mewn corlan hefo'r waliau yma o'u cwmipas.

Ein symud ymlaen oddi yno i le oedd fel warws fawr. Cael blancedi, tri 'biscuit of hay' (sachaid sgwâr o wellt ydi hwnnw) i wneud matres, pulo crwn, dim 'sheets' ac yn ôl i'r hangar. Yna dangos i ni sut i wneud y gwely a'n siarsio i gofio y rhif ar y gwely. Cefais i y gwely isaf ac yn hynod falch o gael rhoi fy mhen i lawr.

Yn gynnar iawn yn y bore roedd rhywrai wedi agor y drysau mawr ar yr 'hangar' a'u sleidio i'r ochr. Sôn am dwrw a gwynt oer yn ein deffro. Y Corporals llanciau mawr yn gweiddi nerth eu pennau fel petai ni i gyd yn fyddar. Gwisgo cyn gynted ag y medrwn, trowsus, sanau a sgidiau ac am y cafniau oedd rhwng yr hangars i molchi. Cafn pren, dŵr yn rhedeg ar ei hyd o dap yn y pendraw a molchi fel mewn afon, ac yn ddiolchgar nad oedd rhaid i mi shafio bob dydd. (Wedi deall, roedd yn gallach shafio gyda'r nos).



Wel, sôn am garchar am naw wythnos a heb wneud dim i'w haeddu, ha ha. Rhedeg, ymarfer corff, martsio a chael eich galw yn enwau na chlywais i rioed yn y chwarel. Ac am fod rhywun yn dal ac yn y tu blaen o hyd ac yng ngolwg y rhai oedd â streips ar eu breichiau, yn ei chael hi'n waeth yn aml.

Wrth wneud yr holl weithgareddau hyn i gyd roeddwn ni'n teimlo'n llwglyd, hogiau ar eu prifant go iawn. Wedi dod i ddeall pethau yn well roeddwn yn gofalu cymryd seibiant call a mynd i'r gwely mewn pryd i fod yn barod am yfory. Ar ôl yr holl weithgareddau hyn roedden ni'n teimlo bron yn 'ffit' ac yn holliach.

Symud ymlaen a cholli llawer o ffrindiau. Yn eu hadnabod hefo enw cyntaf yn unig, neu fel Dai, Taff, Joc, Paddy a Geordie, ond ddim yn cael llawer i'w wneud â'r Cockeys – doeddwn i'n dallt dim gair ganddynt. Cofiaf ein bod yn gorfod codi yn gynnar un bore a hithau yn stido bwrw glaw, 'full pack' a 'cape' dros ein cefnau a phawb yn canu a chwibanu yr holl ffordd i'r stesion i ddal y trên.



**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
OLEW • NWY NATURIOL • LPG


Tel. (01286) 872328 • Mobile- 07798 746718



**SWIGOD
&
SEBON**

SYCHLANHAU
Altro • Ailwnïo
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088



Mynd i Cosford i Ddysgu

Roeddwn wedi cael gwybod ychydig ddyddiau cyn ymadael fy mod yn mynd i Cosford ger Wolverhampton i gamp a oedd yn 'permanent', hynny yw ei fod o yno cyn y rhyfel ac wedi ei adeiladu o waith brics. Mae yno Amgueddfa gan yr RAF hyd heddiw. Ysgol, ysbyty, eglwys, gweithdai mawr a lle fel fflatiau i gysgu a hefyd, wrth gwrs, maes awyrennau ond wedi ei dorri yn ei hanner gan y ffordd haearn a lle i'r trenau sefyll. Cefais le brafiach i gysgu yma ond roedd pethau yn gaeth iawn, 'sbit and polish' go iawn. Roeddem yn dal i wneud y martsio a dysgu ychydig am y gynnuau yr oedden ni'n eu cario. Roedd y cwrs roedden ni'n ei ddilyn yn un diddorol iawn i un fel fi. Dysgu am awyrennau, y Spitfires a sut i'w nôl a'u cadw. Hefyd ein dysgu am y tŵls i'w defnyddio, y 'nuts and bolts', paentio, gwnio, spleisio, rifetio, gwaith coed a'r hydrolics. Pob dim ynglŷn â sut yr oedd yr awyren yn cael ei gyrru gan yr injan, yr olwynion, teiars, brêcs, y coesau a'r perspex yn y ffenestri, y drysau a'r ystolion a'r poteli ocsigen. Gwaith cofio ar y pethau hyn i gyd, y Theory of Flight, inspection, handlo yr awyren ac, ar ddiwedd y cwrs, arholiadau!

Syndod i mi oedd sut ar y ddaear y bu i mi allu dilyn y darlithoedd i gyd cyhyd, a'r rhai oedd yn ein dysgu yn llefaru yn yr iaith fain gyda gwahanol acenion. Ond, mi fŵm yn ffodus iawn i gael Cymro yn darlithio ar y cwrs anoddaf ohonynt i gyd, sef Hydrolics yr Awyren i gyd. Er fod y dysgu yn Saesneg, fe lwyddais rhywsut i gael A1 ac yn falch iawn o hynny. Mae'n rhaid bod gen i wir ddiddordeb yn y pynciau hyn.

Cefais lawer o helynt a sbort yn Cosford a chael cwmpeini Twm Williams (Twm Tacla) o tua'r un ardal â mi, a buom yn gyfeillion mawr. Yr oedd Cosford wedi'r cyfan yn agos iawn at Gymru ac yn siŵr felly o fod yn fwy cartrefol.

Roedd Twm yn hŷn na mi ac yn 'hitch-heiciwr' o fri ac yn gwybod y 'ropes', fel y dywedir. Cofiaf un tro ni'n dychwelyd yn ôl un dydd Sul i'r camp o Lanberis ac i fod i mewn erbyn 10 o'r gloch y nos. Cefais bres trên gan mam a nhad o Fangor i Wolverhampton, a minnau heb syniad o'r ffordd yn ôl ar y trên. Dyma Twm yn fy mherswadio i beidio mynd ar y trên 5pm o Fangor.

Dyma ni'n dau yn cerdded i lawr at y Garth i 'hitch heicio' a finnau erioed di begian lifft gan neb. Ond doedd gan Twm ddim cywilydd a'i fawd i fyny yn dalog i gyd. Ceir i gyd yn pasio ond dyma lori fawr yn stopio i fyny'r lôn.

'Tyrd yn d'laen,' meddai Twm.

Cyrraedd y lori fawr uchel a'r dreifar yn gofyn i Twm

'Is this the right way to Birmingham?'

'Ei no ddy we,' medda Twm yn ei Saesneg gora.

'You come in the front then,' medda'r dreifar wrtho, 'and tell him (sef fi) to sit in the back out of sight.'

Wn i ddim hyd heddiw oedd gan Twm unrhyw syniad am y ffordd i Birmingham mwy na'r dyn yn y lleuad, ond yn saff i chi roedd y ffordd yno yn siŵr o fynd drwy Cosford y noson honno!

Andros o bas gwyllt. Fuoch chi erioed yn eistedd yng nghefn lori agored ar hyd yr A5 droellog? Heibio i Lyn Ogwen, Betws y Coed, Corwen ac ymlaen i Loegr a minnau yn cael fy nhafu fel sach o datws i bob man ar hyd y siwrnai!

Ond i ddod i ddiwedd y stori, roedd Twm a finnau yn cael paned o de am 8pm yn y Naffi, a'r deg swllt trên yn saff yn ein pocedi!

(parhad y mis nesaf a hanes siom y gwersylloedd hyfforddi)

Un funud fach ...

FFIEIDD-DRA

A dyna fi wedi syrthio ar fy mhen i'r trap! Do, bŵm innau'n ddigon gwirion i ddal sylw ar yr hyn ddywedodd o, a mwy na hynny dyma roi sylw pellach i'r geiriau hynny. Ddylwn i ddim gwneud hynny, mae'n siŵr. Gwell fyddai anwybyddu geiriau ffôl a rhyfygus creadur sy'n enwog am ddweud pethau eithafol, a ffaidd hyd yn oed. Ond er mor gyfoglyd ei eiriau ar brydiau, mae'n amlwg yn llwyddo i wneud i bobl wrando ac i ymateb.

Un o'r ddau frawd oedd yn aelodau o'r band, Oasis, gyda'i frawd, Liam yw Noel Gallagher. Fel y dywed o ei hun gyda'i ostyngieddrwydd arferol, Oasis oedd 'y peth mwyaf a ddaeth o Loegr mewn 35 o flynyddoedd'. Ond mae'r band wedi chwalu ers tro, a'r brodyr yn enwog am eu ffræo parhaus. A'r wythnos ddiwethaf cyhoeddodd na fydd Oasis byth yn efelychu bandiau eraill sydd wedi ail ffurfio. Mae'n debyg ei fod wedi dweud hyn lawer tro o'r blaen, ond y tro hwn, er mwyn pwysleisio'r peth, fe ychwanegodd, 'ddim hyd yn oed petai gwneud hynny'n achub holl blant newynog y byd'.

Mae ei eiriau yn ansensitif, yn hyll, ac yn ffaidd. Maen nhw'n dangos balchder mawr, gyda'r awgrym y gallasai Oasis godi digon o arian i fwydo holl blant y byd. Onid yw Bob Geldof a cherddorion eraill a fu'n codi arian ers blyneddau yn cydnabod mai annigonol yw'r holl filiynau o bunnoedd i wir ddatrys argyfwng tldi? Sut ar wyneb daear all Gallagher wamalu ynghylch y miliynau o blant sy'n dioddef ac yn newynu?

Ac eto, er mor atgas ei eiriau, mae ganddo rywbeth i'w ddweud wrthym. Oherwydd, yn anfwriadol mae'n debyg, mae geiriau Gallagher yn pigo'n cydwybod ninnau. Gwyddom bellach be' na wnaiff Gallagher dros blant newynog y byd. Ond wrth ffeiddio ato fo a'i eiriau, mae'r geiriau hynny rywsut yn ein herio ninnau i ystyried be' na wnawn ninnau drostynt. Na, does yr un ohonom ni'n ddigon balch i feddwl am eiliad y gallwn ni leddfu poenau holl dlodion y byd. Ond fe allwn ni wneud ein rhan i gynorthwyo eraill. Mae digon o gyfle trwy elusennau, yn cynnwys rhai Cristnogol fel Cymorth Cristnogol a Tearfund, i ni estyn cymorth. 'Dos, a gwna dithau yr un modd', meddai Iesu ar derfyn ei ddameg am y Samariad Trugarog gan bwysleisio mai ein cymydog yw pwy bynnag a welwn mewn angen. Ond wrth beidio cyfrannu, neu wrth beidio rhoi'r bunt neu'r decpunt neu'r canpunt ychwanegol, ydym ni (er mor anghysurus a gwrthun yr awgrym) yn ymdebygu i Mr Gallagher? Yng nghyfnod y Diolchgarwch eleni, wrth ddiolch am fendithion tymhorol Duw, mae cyfle eto i ymateb i alwad Iesu i wneud a allwn dros eraill er ei glod.

JOHN PRITCHARD



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

Ymweliad yr Americanwyr!



Cawsom ym Mro'r Eco ymweliad arbennig gan ddau dîm o Gristnogion ifanc o'r Unol Daleithiau'r haf hwn. Cafodd y cyfan ei drefnu gan y Parchg John Robinson, Cydlynnydd Tîm Ieithoedd Celtaidd. Mae yntau'n Americanwr, yn hanu o Denesee, ond wedi treulio blynyddoedd lawer yng Nghymru fel cenhadwr ac wedi llwyddo i ddysgu'n hiaith yn arbennig o dda!

Cawsom gwmni dau dîm, oedd â'r un nod o rannu'r newyddion da am Iesu Grist ond yn mynd ati i gyflawni hynny trwy ddulliau gwahanol. Yn ystod yr wythnos gyntaf cawsom dîm o chwaraewyr pêl-fasged oedd yn cael eu harwain gan y Parchg Brian Simms (yntau'n chwaraewr pêl-fasged campus). Eu nod nhw oedd cyrraedd pobl ifanc yng Nghaernarfon a'r cylch efo'r Efengyl trwy ddefnyddio chwaraeon, gan ganolbwyntio'n benodol (wrth gwrs) ar bêl-fasged. Felly, gydol yr wythnos, Gorffennaf 2-6, roedd timau'n cynnal gwasanaethau a sesiynau pêl-fasged mewn gwahanol ysgolion cynradd ac uwchradd yn ardal Caernarfon a Bangor, yn cynnwys Ysgol Brynrefail ar Orffennaf 5.

Cawsom ymateb gwych gan athrawon a disgyblion Ysgol Brynrefail wrth i Brian rannu o'i brofiad a'i sgiliau pêl-fasged efo disgyblion brwdfrydig. Roedd y disgyblion yn rhyfeddu hefyd at y dyn 6'6" troedfedd o daldra! Roedd mewnbyn y tîm yn werthfawr i ysgol sydd â diddordeb mawr ym mhêl-fasged. Trwy'r sesiynau, roedd y tîm yn gallu adeiladu perthynas efo'r bobl ifanc, a chafwyd cyfle i'w gwahodd i'r digwyddiad pêl-fasged oedd yn cael ei gynnal y noson honno yn Ysgol yr Hendre yng Nghaernarfon. Diolch yn fawr iawn i'r tîm a hefyd i Mr Phillip Holland am fod mor groesawgar tuag atyn nhw. Roedd y tîm hefyd yn helpu efo clybiau ieuenctid Cristnogol yr ardal - a chawsom noson wych yn CIC Llanrug, yng Nghapel y Rhos, wrth i griw mawr ohonynt ddod atom.

Cyn gynted â bod y chwaraewyr pêl fasged wedi dychwelyd i'r

America, cawsom griw newydd o Americanwyr yn eu lle! Y tro hwn, cawsom gôr ieuenctid o Galiffornia. Eu gweledigaeth nhw oedd cyrraedd pobl efo'r Efengyl trwy ganu mewn gwahanol ysgolion ac eglwysi ac ar strydoedd rhai o'n trefi, a'r cyfan yn arwain at uchafbwynt eu hwythnos gyda pherfformiad o'u sioe, 'Y Cwestiwn', yn Galeri, Caernarfon. LLUN - Perfformiad o sioe 'Y Cwestiwn' yng Nghapel Coch.

Roeddem wedi cael noson dipyn gwahanol cyn hynny, nos Sul, Gorffennaf 8, yng Nghapel Coch, Llanberis, gydag oddeutu 40 o'r côr yn ymuno â ni i roi rhagflas o'r sioe honno. Braff oedd gweld festri Capel Coch yn llawn dop o bobl oedd wedi dod i wrando arnyn nhw, ac roedd hi'n noson arbennig wrth i'r tîm ystyried y cwestiwn, 'Pam fod Duw Cariad yn gadael i'w blant ddioddef? Roedd hyn yn cael ei wneud mewn ffordd synhwyrol a sensitif iawn. Ar ôl iddyn nhw ganu, cawsom air sydyn gan y Parchg John Robinson am ei weledigaeth fel Cydlynnydd Y Tîm Ieithoedd Celtaidd, sy'n ceisio cyrraedd pobl y gwledydd Celtaidd efo'r Efengyl yn eu hiaith eu hunain. Aeth yn ei flaen i sôn am y ffaith fod Duw ei hun am gyrraedd pobl o bob gwlad a diwylliant yn eu mamiaith.

Terfynodd wythnos y Côr, felly, efo'r sioe yn Galeri, nos Wener, Gorffennaf 13; a braff oedd gweld y lle bron yn orlawn efo pobl oedd wedi dod i adnabod y Côr yn ystod yr wythnos ac a oedd yn awyddus i ddod i'w gweld nhw am y tro olaf. Unwaith eto, roedd y sioe - yn ei chyfanrwydd y tro hwn - yn cyffwrdd yn sensitif iawn â materion ynglŷn â dioddefaint, a chredaf yn gryf i lawer gael eu cyffwrdd a'u cysuro trwy'r cyfan.

Diolch yn fawr iawn i John Robinson am drefnu i'r bobl wych yma ddod atom ni, ac edrychwn ymlaen yn frwd at eu hymweliad nesaf yn y dyfodol agos!

Ymweliad y criw â CIC Llanrug

GWELL HWYR NA HWYRACH BETHEL 1 - LLANRUG 2

Denwyd torf dda o tua 300 draw i Gae Coed Belyn ar gyfer ail rownd ragbrofol Cwpan Cymru. Tywydd braff, cae mewn cyflwr da a digon o gythraul. Bu'n gêm gorfforol o'r cychwyn a'r ddau reolwr yn tueddu i anghytuno â pholisi y dyfarnwr i geisio 'cadw'r gêm i lifo'. Cytunaf gyda'r rheolwyr gan i'r agwedd oddefus yma arwain at bum cerdyn melyn ac un cerdyn coch - nid o reidrwydd am y troseddau gwaethaf.

O'r cychwyn cafodd y ddau dîm broblem gyda'r bêl yn adlamu oddi ar y tir caled. Gyda marcio tynn a thaclo digyfaddawd yn fuan gwelwyd defnydd cyson o'r bêl hir. Ar y cychwyn bu hyn yn anfantais i Lanrug gan dorri allan eu chwaraewyr canol cae dawnus. I Fethel, roedd Sam Williams a'i gyflymdra yn fygythiad,

ond y tueddiad oedd i saethu o bellter.

Roedd diffyg cyfathrebu yn amddiffyn Bethel ac, wedi 20 munud, cawsant eu cosbi. Pêl hir o'r cefn gan Lanrug, a'r bêl yn glanio mewn gofod rhwng y gôl-geidwad a'r amddiffyn. Andrew Williams, gynt o Fethel, yn derbyn y cyfle hawdd i rwydo.

Arweiniodd y gôl at 10 munud da o reoli gan Lanrug. Roedd Gareth Jones - seren y gêm - yn dal y bêl i fyny yn dda i Lanrug, ac yn rhoi cyfle i ganol cae y cochion gefnogi mwy. Tarodd Andrew Williams y postyn, ac roedd rhwystredigaeth Bethel yn amlwg wrth i Sam Williams ac Emlyn Roberts dderbyn y cerdyn melyn.

Yna eiliad dyngedfennol! O groesiad, Simon Kay yn anelu cic dros ben wych at gornel isaf rhwyd Llanrug. Rhywsut

llwyddodd Dave Ball, y gôl-geidwad, i ymateb a throir'r bêl o gwmpas y postyn. Arbediad gwirioneddol wych.

Gyda Bethel yn dal i chwarae gydag un ymosodwr i fyny'r cae, dechreuodd Llanrug reoli rhannau helaeth o'r ail hanner. Gareth Jones yn amlwg gyda dau rediad ac ergyd gampus - un yn taro'r postyn. Prin oedd ymosodiadau Bethel a bydd Jonathan Sadler yn dal i bendroni sut y methodd â rhwydo o 10 llath, ac yna o ddwy lath, pan ddaeth y bêl yn ôl iddo oddi ar Dave Ball. Eiliad dyngedfennol arall.

Pum munud i fynd a Llanrug yn gyfforddus. Yna drama ryfeddol. Cic rydd i Bethel. Sadler yn ei chodi i'r blwch a'r eilydd Kevin Jones yn penio i gornel y rhwyd.

Tri munud i fynd a cherdyn coch i Darren Phillips, cefnwr

de Llanrug, am 'eiriau' gyda'r llymanwr. Mae'n rhaid eu bod yn ddifrifol iawn o gofio iaith liwgar y ddau dîm drwy'r gêm na ddenodd sylw y dyfarnwr o gwbl! Y dorf yn codi llais, cyfle am 'sioc'. Yna ym munud cyntaf yr amser ychwanegol, pêl-hir o'r cefn gan Lanrug. Eto y gofod rhwng y gôl-geidwad a'r amddiffyn a Gareth Jones yn coroni perfformiad unigol gweithgar trwy fynd o gwmpas y gôl-geidwad a rhwydo'r gôl holl bwysig.

O gofio sefyllfa Bethel fel clwb ar ddiwedd y tymor diwethaf bydd hwn yn berfformiad i godi calon, ac efallai yn sbardun am dipyn o lwyddiant eleni. I Lanrug, taith i glwb Four Crosses yn y Canolbarth sy'n arwain cynghrair Spar ar hyn o bryd.

Chwaraeon

DIOLCH S4C

Cefais sgwrs yn yr Eisteddfod gyda chefnogwyr clybiau'r de ynglŷn â datblygiad Cynghrair Pêl-droed Cymru. Y farn gyffredinol oedd bod y safon yn sicr yn gwella. Siomedig oedd pawb ynglŷn â'r torfeydd.

Yn y gorllewin roedd atyniad gêm gartref yr Elyrch ar y Sadwrn yn cael dipyn o effaith. Mwy o gemau nos Wener/ pnawn Sul/ ganol wythnos felly. Y farn gyffredinol oedd cadw'r gynghrair yn 'genedlaethol' ac nid dwy gynghrair ranbarthol. Ansicrwydd gyda maint y gynghrair. Nifer yn ffafrio 15 clwb gyda phawb yn chwarae unwaith. Braf fuasai cael clwb yn y de-ddwyrain – Caerdydd/ Casnewydd/ Y Cymoedd. Dyma'r ardal mae'n ymddangos sy leiaf parod i'w clybiau ymuno â'r Gynghrair.


Canmoliaeth fawr i gyfraniad Sgorio, a nifer o blaid cael rhaglen drafod ganol yr wythnos. Canmol S4C hefyd am fynnu eleni bod rhan helaeth o'r ffi maent yn dalu i ddarlledu'r gemau yn mynd at ddatblygu cyfleusterau yn hytrach nag i goffrau'r Gymdeithas Bêl-droed. Yn sicr, mae cyfleusterau Stadiwm y Book People ym Mangor yn denu cryn edmygedd. Edrychwn ymlaen am dymor cyffrous o wyllo, trafod a chefnogi.

Y DATBLYGIAD YN PARHAU

Gyda ei berfformiadau yn Wimbledon, Y Gemau Olympaidd a draw yn Efrog Newydd bu'r Albanwr Andy Murray yn un o brif sêr chwaraeon yr haf. Dangosodd nerth cymeriad a gallu diamheuol i gael llwyddiant wedi iddo 'foddi yn ymyl y lan' mor aml.

Yn lleol rydym wedi bod yn dilyn datblygiad Cai Jones o Rhiwlas, disgybl yn Ysgol Bethel. Cafodd yntau haf rhyfeddol a diolch i Gareth, tad Cai, am grynodedd o'r cyfnod cyffrous:

'Teithiodd Cai i Sunderland, Yr Alban, Bournemouth, Bolton, Wigan, Y Wirral a Chaerdydd. Cynrychioli Gogledd Cymru yn Sunderland a Chymru yn Bournemouth. Yn Bournemouth chwarae ar gyrtiau clai am y tro cyntaf. Enillodd bob un o'i gemau a cael ei ddewis yn 'chwaraewr mwyaf addawol' gan reolwyr timau Cymru a Lloegr.



Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun

Y SAMARIAID
(01248) 674985

Yng Nghaerdydd, dros ddau ddiwrnod enillodd Bencampwriaeth Iau Cymru. Chwaraeodd 8 gêm i gyd gan ennill pob un o ddwy set i ddim. O ganlyniad, mae Cai wedi ei wahodd i Roehampton i ymarfer yng Nghanolfan Hyfforddi Tennis Prydain.' Da iawn, Cai, ac edrychwn ymlaen at fwy o ddatblygiad.

GWASANAETH GARDDIO OWEN

GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO

FFENSIO GERDDI A
FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO

07901648008

Mis o Redeg.

Roedd digon o ddewis rasys i redwyr lleol yn ystod Medi. Cynhaliwyd Ras Fynydd Moel Hebog ym Meddgelert, ac yna daeth Pencampwriaeth Cymru i Gaernarfon ble cynhaliwyd Ras 10k o amgylch y Foryd ar ddiwrnod ffafriol iawn i redwyr. Y Sadwrn dilynol, ar un o ddyddiau poethaf yr haf (!) daeth ras olaf Pencampwriaeth Mynydd Prydain i Abergwyngregyn, a dringo serth i gopa Moel Wnion. Wythnos yn ddiweddarach, a'r tywydd heb fod mor ffafriol, roedd Ras Pedol Peris yn cynnwys dringfeydd Elidir fach ac Elidir fawr, Y Garn, Y Glyder, Y Lliwedd, Yr Wyddfa a Moel Cynghorion. I'r rhai nad oeddent am fentro'r cwrs llawn, roedd siawns i gystadlu yn yr Hanner Pedol, a gorffen ym Mhen Gorffwysfa. Bydd y ras hon yn rhan o Bencampwriaeth Mynydd Prydain y flwyddyn nesaf.

Erbyn i chwi ddarllen y nodiadau byr hyn, bydd Rasys 10k, Hanner marathon a Marathon Llanddwyn wedi eu cynnal, a does ond gobeithio fod y tywydd wedi bod yn fwy ffafriol nac a fu i gynnal y Triathlon yno. Yna, ar ddechrau Hydref bydd tymor y rhedeg traws-gwlad yn ail-gychwyn, gyda ras gyntaf y tymor yn cael ei chynnal yn Nhrefn, Bangor.

Fe'i Clywsoch yma gyntaf....

Ar ddiwedd Hydref 2013 bydd Pencampwriaethau Rasys Cyfnewid Mynydd Prydain yn cael eu cynnal yn Llanberis. Clwb Rhedwyr Eryri fydd yn trefnu, a dyma'r trydydd tro i'r Pencampwriaethau hyn gael eu cynnal yma.

Mae siawns hefyd y bydd Pencampwriaethau Rhedeg Mynydd y Byd yn cael eu cynnal yn Llanberis yn 2015. Mae trafodaethau eisoes yn mynd ymlaen ar hyn o bryd, a'r penderfyniad yn debygol o gael cadarnhad yn dilyn llwyddiant digamsyniol Rasys Mynydd y Gymanwlad yma'r llynedd.

Does ryfedd fod yr ardal yn cael ei hadnabod bellach fel Prif Ganolfan Chwaraeon Antur Cymru.

CYNGERDD BLYNYDDOL

SEINDORF ARIAN DEINIOLEN

Theatr Seilo, Caernarfon
Nos Sadwrn Hydref 6ed 2012
am 7 o'r gloch

Seindorf Arian Deiniolen
Seindorf Ieuencid Deiniolen
Sarah Louise
Lois Eifion
'Bach a Mawr'
Yr Ayes
a'r Offerynnwr Gwadd: Gavin Saynor (Tuba)
Arweinydd y Noson: Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa)

Tocynnau: £10 (£3 i blant)
ar gael gan
Meirion Jones (01286 870452)
neu unrhyw aelod o'r Band

Holl elw'r noson i gefnogi teulu lleol




Kierran Forrest a Georgia Parkinson gyda'u tlysau.

Pencampwyr Gogledd Cymru.

Ar y Sadwrn olaf ond un ym Medi daeth dros gant o blant ac ieuenctid rhwng chwech oed ac un ar bymtheg oed i gopa'r Gogarth yn Llandudno i gystadlu ym mhencampwriaeth rhedeg mynydd ieuenctid gogledd Cymru. A chafodd y dorf enfawr o ymwelwyr â'r copa oherwydd y tywydd hynod o heulog, wledd o redeg gan bawb, o'r ieuengaf i'r hynaf.

Roedd yn bosibl hefyd ddilyn yr holl rasys o'r copa, a gwylio'r cystadlu brwd wrth ddisgyn ac esgyn ar y gelltydd gweiriog, serth. Ac ar ddiwedd diwrnod anhygoel, daeth tair o'r prif wobrau i fro'r "Eco", wrth i Mabon Llyr (Dinorwig) ennill adran y bechgyn dan 16 oed, Kierran Forrest (Ceunant) ennill adran y bechgyn dan 12 oed, a Georgia Parkinson (Pontrug) ennill adran y genethod dan 8 oed. Ac o gysidro fod y rhedwyr wedi teithio o bob rhan o ogledd Cymru, a thu hwnt (roedd rhai yno o Lerpwl a Blackburn), daeth rhedwyr bro'r "Eco" i'r brig mewn tair allan o ddeg ras. Llwyddiant yn wir i'r rhai sydd wedi meithrin eu dawn yn y rasys nos Fawrth yn gynharach yr haf hwn.

Ein llongyfarchion hefyd i bawb arall o'r fro a fu'n cystadlu.



SGOTA

Mr Eifion Cullen gyda Eog a ddaliodd ar 11fed o Fedi ar y Seiont



Triathlon y Tywod

Llongyfarchiadau i Phillip Lynes, Tŷ Newydd, a ddaeth yn 14eg allan o 300 o gystadleuwyr yn y 'Sandman Triathlon' a gymerodd le yn Niwbwrch, Ynys Môn, ar 16 Medi. Roedd rhaid iddo nofio 750m, beicio 60K a rhedeg 10K a'i amser oedd 2 awr a 56 munud. Ardderchog iawn, Phillip!

